

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
Cefndir.....	5
Methodoleg	5
Cyflwyniadau.....	6
Cyflwyniad 1 (Llandudno) a 4 (Abertawe): Cefndir y Cais am Dystiolaeth – Llywodraeth Cymru.....	6
Cyflwyniad 2 (Llandudno): Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol - Gordon Cowtan, Fintry Development Trust	8
Cyflwyniad 3 (Llandudno) a 7 (Abertawe): Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol, Cydberchnogaeth: Newid y sgwrs - Berry Jordan, Vattenfell.....	9
Cyflwyniad 5: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol: Tair gêm fwrdd y tu allan i Abertawe (cyflwyniad 1 yn Abertawe) - Chris Blake, Ynni Cymunedol Cymru.....	13
Cyflwyniad 6: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol (cyflwyniad 2 yn Abertawe) - Martyn Popham, Cenin Renewables	16
Trafodaethau grŵp	19
Sesiwn brynhawn 1 Llandudno	
Trafodaeth grŵp: Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?	19
Sesiwn brynhawn 1 Abertawe:	
Trafodaeth grŵp: Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?	22
Sesiwn brynhawn 2 Llandudno:	
Trafodaeth grŵp: Pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau allweddol?	
Bwrdd 1: Cyllid ar gyfer cydberchnogaeth.....	28
Bwrdd 2: Cost a chymhlethdod	29
Bwrdd 3: Angen capasiti i reoli	30
Bwrdd 4: Egluro cydberchnogaeth i'r cyhoedd	31
Bwrdd 5: Byd di-gymhorthdal	32
Sesiwn brynhawn 2 Abertawe:	
Trafodaeth grŵp: Pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau allweddol?	
Bwrdd 1: Cyllid ar gyfer cydberchnogaeth.....	33
Bwrdd 2: Gwneud i brosiectau weithio heb gymhorthdal.....	34
Bwrdd 3: Sut y mae cynllunio'n galluogi?	36
Bwrdd 4: Annog y gymuned i ymgysylltu.....	37
Bwrdd 5: Diffiniadau	39
Atodiad 1	41
Sefydliadau oedd wedi eu cynrychioli yn nigwyddiad Llandudno	41
Sefydliadau oedd wedi eu cynrychioli yn nigwyddiad Abertawe	42

Atodiad 2	43
Agenda Llandudno	43
Agenda Abertawe.....	44

Crynodeb Gweithredol

Ar 12 Ionawr 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru gais am dystiolaeth i ystyried a ddylai targed Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd gynnwys elfen o [berchnogaeth leol](#). Ym mis Chwefror 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ddogfen ar y cais am dystiolaeth i oleuo gweithrediad y targed.

Nodyn yw'r adroddiad hwn ar drafodaethau'r ddau ddogfen. Mae'r wybodaeth a gofnodir yn adlewyrchu barn a dealltwriaeth y cyfranogwyr yn y digwyddiadau, nid barn Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd y pwyntiau allweddol o'r digwyddiadau ynghyd â'r ymatebion ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen yn crynhoi'r dystiolaeth a dderbyniwyd ac yn cynnwys ymateb a gweithredu'r Llywodraeth.

Trosolwg ar weithdy Llandudno

Roedd gweithdy Llandudno'n cynnwys cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru, Gordon Cowtan, Fintry Development Trust a Berry Jordan, Vattenfall. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod y pynciau canlynol mewn sesiynau grŵp:

- Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?
- Cyllid ar gyfer Cydberchnogaeth
- Cost a chymhlethdod
- Yr angen am gapasiti i reoli
- Egluro Cydberchnogaeth i'r cyhoedd
- Byd di-gymhorthdal

Dyma oedd y prif themâu a gododd o'r gweithdy rhyngweithiol yn Llandudno:

- Mae angen cyllid rhad, y posibilrwydd o gael gafael ar hyn drwy awdurdodau lleol / cronfeydd pensiwn neu sefydlu Banc Cymru plc. Dylai cronfeydd pensiwn fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac nid mewn tanwyddau ffosil.
- Mae trafod creu ymdeimlad ymhlith pobl leol o fod yn berchen ar brosiect ynni adnewyddadwy yn tywys y sgwrs ymaith o drafod a yw unigolion yn hoffi ynni adnewyddadwy neu beidio.
- Gall cefnogaeth y gymuned drwy gam cynllunio prosiect fod yn fantais sylweddol i brosiect oherwydd bod llai o wrthwynebiadau.
- Rhaid sicrhau cyfleoedd teg a chyfartal ac nid loteri codau post.
- Angen cymorth i ddatblygu prosiectau gan fentor / swyddog datblygu.
- Mae ymgysylltiad a chyfathrebu'n gynnar â'r gymuned yn bwysig.
- Mae angen rhoi mwy o gymorth i dir y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol i sicrhau caniatâd cynllunio.

Trosolwg ar weithdy Abertawe

Roedd gweithdy Abertawe'n cynnwys cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru, Chris Blake o Ynni Cymunedol Cymru, Martyn Popham o Cenin Renewables a Berry Jordan o Vattenfall. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod y pynciau canlynol mewn sesiynau grŵp:

- Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?
- Cyllid yng Nghymru
- Gwneud i brosiectau weithio heb gymhorthdal
- Sut y mae cynllunio'n galluogi?
- Annog cymunedau i ymgysylltu
- Diffiniadau

Roedd persbectif y cyfranogwyr o'r gweithdy yn Abertawe fel a ganlyn:

- Mae angen cyllid rhad. Er bod gan awdurdodau lleol fynediad at gyllid ar log o 0.2%, mae cryn alw am y cyllid hwn ar gyfer gwasanaethau craidd fel addysg ac adeiladu ffyrdd felly ni ddylid disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu cyllid ar gyfer ynni adnewyddadwy.
- Mae mapio lle byddai'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer prosiectau adnewyddadwy'n flaenoriaeth. Bydd "atlas ynni" Llywodraeth Cymru'n dangos ble y mae'r cyfleoedd.
- Rhannu refeniw / perchnogaeth rithiol yw'r trefniant gorau / lleiaf trafferthus rhwng datblygwyr a chymunedau (er enghraifft pan fydd cymuned leol yn cael cynnig cyfle i fynd yn rhannog mewn prosiect ac efallai dod yn berchen ar un tyrbin fel rhan o ddatblygiad gyda nifer o dyrbinau).
- Dylai'r broses gynllunio hefyd roi pwysau i brosiectau adnewyddadwy gydag elfen o berchnogaeth gymunedol.
- Dylid hyrwyddo enghreifftiau da o gydberchnogaeth a'u hailadrodd mewn ardaloedd eraill.
- Dylai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl ar ystâd a thir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Yn bwysig cadw'r budd ariannol yng Nghymru.
- Angen banc buddsoddi yng Nghymru.
- Angen cadarnhau'r diffiniadau.
- Busnesau lleol i gael cyfle i fod yn berchen ar ynni adnewyddadwy a chyfrannu drwy wneud hynny at gyflogaeth leol, addysg ac adfywio safleoedd tir llwyd.

Cefndir

Ym Medi 2017 gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig dargedau uchelgeisiol ond ymestynnol ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae gan Gymru yn awr darged bod 1GW o'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru'n ynni perchnogaeth leol erbyn 2030. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i bob datblygiad newydd gynnwys o leiaf elfen o gydberchnogaeth erbyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio [cais am dystiolaeth](#) i wahodd pobl i oleuo ein dull o weithredu perchnogaeth leol.

Yn Chwefror 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad i hel tystiolaeth drwy'r cais am dystiolaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol.

Mynychodd 17 o bobl y digwyddiad yn Llandudno ar 12 Chwefror yn Venue Cymru a mynychodd 29 o bobl yr un yng Ngwesty'r Village yn Abertawe ar 26 Chwefror. Rhoddir rhestri llawn o'r sefydliadau oedd wedi eu cynrychioli yn y digwyddiadau yn Atodiad 1.

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Vattenfall, Fintry Development Trust, Ynni Cymunedol Cymru a Cenin Renewables i ddarparu'r digwyddiadau. Mae agenda'r gweithdy ynghlwm yn Atodiad B.

Nod y digwyddiad oedd:

- Gosod cyd-destun polisi y Cais am Dystiolaeth.
- Rhoi cyfle i randdeiliaid gyfrannu eu tystiolaeth hwy.
- Adnabod beth oedd y prif heriau a'r gweithredu i Gymru ar ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol.

Methodoleg

Darparwyd y gweithdy'n defnyddio MeetingSphere, system ryngweithiol ar gyfer casglu a bwydo barn cyfranogwyr yn ôl mewn amser real. Cafodd y cyfranogwyr eu hannog i gyflwyno sylwadau a chwestiynau mewn ymateb i bob un o'r siaradwyr, yn defnyddio dyfeisiau llechen. Cofnodwyd prif bwyntiau'r siaradwyr ar MeetingSphere wrth iddynt siarad.

Roedd y rhyngwyneb yn annog y cyfranogwyr i weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau a chyfrannu at y broses ymgysylltu. Gallai pobl hefyd weld ac ymateb i sylwadau'r cyfranogwyr eraill wrth i'r digwyddiad fynd yn ei flaen. Yn ystod ac ar ôl y digwyddiad, cafodd y siaradwyr eu hannog i ymateb i gwestiynau a sylwadau'r cyfranogwyr ar MeetingSphere.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn Llandudno roi eu barn am:

- Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?
- Cyllid ar gyfer Cydberchnogaeth
- Cost a chymhlethdod
- Yr angen am gapasiti i reoli
- Egluro Cydberchnogaeth i'r cyhoedd

- Byd di-gymhorthdal

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn Abertawe roi eu barn am:

- Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?
- Cyllid yng Nghymru
- Gwneud i brosiectau weithio heb gymhorthdal
- Sut y mae cynllunio'n galluogi?
- Annog cymunedau i ymgysylltu
- Diffiniadau

Cyflwyniadau

Cyflwyniad 1 (Llandudno) a 4 (Abertawe): Cefndir y Cais am Dystiolaeth – Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r cefndir polisi ar gyfer y Cais am Dystiolaeth ynghyd â throsolwg ar y Cais am Dystiolaeth.

Mae'r cyflwyniad llawn isod:



Grwpwyd cwestiynau a sylwadau'r cyfranogwyr yn ystod cyflwyniad Llywodraeth Cymru yn Llandudno o dan y themâu canlynol:

Seilwaith

- **Ystyried seilwaith.** Gofynnodd un cyfranogwr a oedd seilwaith yn cael ei ystyried fel rhan o'r cais am dystiolaeth. Dywedodd cyfranogwr arall fod seilwaith yn broblem ond bod cyllido gwelliannau'n her. Mae'r grid yn gweithredu i'w gapasiti ond rhaid sicrhau bod systemau'n addas i'r dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw uchel, a dylunio'r rhwydwaith yn ofalus, gan ymgorffori storio.
- **Diddordeb mewn gridiau clyfar.** Gofynnodd un cyfranogwr a oedd diddordeb mewn gridiau clyfar. Cadarnhawyd fod diddordeb a bod gweithredwyr rhwydwaith y Grid Cenedlaethol ac academyddion yn ystyried yr heriau'n rhagweithiol. Mae Rhwydweithiau Ynni Scottish Power yn treialu rheolaeth weithredol o rwydweithiau ar draws Gogledd Cymru.

Gwres

- Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i wybod a oedd **Llywodraeth Cymru'n ystyried gwres** fel rhan o'r Cais am Dystiolaeth. Roedd pryder fod **Llywodraeth Cymru** efallai'n ddall i'r afalau isel ar y goeden drwy beidio ag ystyried gwres yn gynnar. Atebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud bod y

targed presennol yn ymwneud â thrydan. Ychydig iawn o ddata gwres sydd ar gael i seilio targed arno.

- **Coed tân** Gofynnodd un cyfranogwr a yw coed tân yn cael ei ystyried fel system CO₂ niwtral.
- **Gwres lleol** Credai un cyfranogwr mai creu gwres yn lleol oedd fwyaf effeithlon.

Niwclear

- Gofynnodd un cyfranogwr beth oedd rôl **ygni niwclear**. Atebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud bod y 2.8GW a gynhrychir gan Wylfa'n fwy na'r 2GW sydd ei angen i bweru Cymru. Fodd bynnag, Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar ygni niwclear. Er bod niwclear yn berthnasol i dargedau datgarboneiddio, nid yw'n berthnasol i dargedau ygni adnewyddadwy Ysgrifennydd y Cabinet a osodwyd y llynedd.

Galw am ygni yn y dyfodol

- Awgrymwyd bod angen mapio'r proffil galw am ygni yn y dyfodol oherwydd bydd technolegau newydd fel cerbydau trydan yn debygol o gael effaith sylweddol ar y galw am ygni. Mae proffil gwres y dyfodol hefyd yn anhysbys.
- Lleisiodd un cyfranogwr bryder am y **datgysylltiad rhwng systemau a weithredir gan berchnogion lleol a datblygwyr mawr**.

Ardrethi busnes

- Cyfeiriodd un cyfranogwr at yr effaith yr oedd ardrethi busnes newydd yn ei gael ar brosiectau hydro cymunedol bach.

Cododd y cyfranogwyr yn Abertawe'r pwyntiau a'r cwestiynau canlynol yn ystod cyflwyniad Llywodraeth Cymru:

- Sut y byddech yn atal cwmni rhag sefydlu **Cyfrwng at Ddibenion Arbennig** yng Nghymru er mwyn hawlio ei fod yn brosiect perchnogaeth leol?
- Mae **cymorthdaliadau a chronfeydd budd cymunedol** wedi bod yn gymharol hael, ond nid yn debygol o fod mor hael yn y dyfodol. Mae angen i ni edrych ar ba lefel o fudd a fyddai'n briodol yn y dyfodol a beth fyddai hyn yn ei olygu i gydberchnogaeth?

Cyflwyniad 2 (Llandudno): Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol - Gordon Cowtan, Fintry Development Trust

Ymunodd Gordon Cowtan o Fintry Development Trust, Stirlingshire â'r gweithdy yn Llandudno drwy Skype i rannu llwyddiannau a heriau'r Ymddiriedolaeth gyda datblygu fferm wynt gymunedol yn Fintry. Manteisiodd yr Ymddiriedolaeth ar arbenigedd lleol sylweddol i ddatblygu prosiect ynni gwynt gydag incwm o £500,000 hyd yma. Cafodd y gymuned fenthylg £2.5m gan y datblygwr, Falck, ar gyfer costau buddsoddi cyfalaf. Tynnir yr ad-daliadau allan o'r elw dros 15 mlynedd gyda'r gweddill yn mynd ar gyfer prosiectau lleihau ynni a chynaliadwyedd eraill. Ar ôl talu'r benthygiad yn ôl, disgwylir i'r elw y bydd y gymuned yn ei dderbyn yn cynyddu. Cafodd draean o'r ddyled ei hail-gyllido drwy Gronfa Buddsoddi Ynni Adnewyddadwy (REIF) Banc Buddsoddi'r Alban i arbed arian.

Mae'r cyflwyniad llawn isod:



Fintry Development
Trust Llandudno.pdf

Roedd yr ymatebion i gyflwyniad Gordon yn canolbwyntio ar gyllid prosiectau a'u buddion.

Cyllid

Roedd un cyfranogwr eisiau gwybod beth oedd y £2.5m yn ei brynu: ai darn o dir? Eglurodd Gordon fod y gymuned yn rhith-berchen ar un o'r tyrbinau. Cytundeb cyfranddaliadau cynhyrchu yw rhith-berchnogaeth (h.y. mae'r gymuned yn derbyn cyfran ganrannol o incwm fferm wynt, llai ad-daliadau'r ddyled, y llog a'r costau gweithredu a chynnal a chadw). Os yw fferm wynt ond yn effeithio ar un gymuned, mae'n fodel llawer haws gweithio â fo.

Roedd un cyfranogwr yn awyddus i wybod a fyddai prosiect Fintry, o ystyried y dyfodol main sydd mewn golwg, yn gwneud elw o'r buddsoddiad. Roedd Gordon yn rhagweld y bydd y gymuned yn derbyn mwy o elw ar ôl talu dyled y tyrbin yn ôl. Nodwyd nad yw'r gymuned wedi rhoi dim o'i harian ei hun yn y cynllun a bod y gymuned yn ffyddiog y gall dalu'r benthygiad yn ôl gydag arian dros ben.

Buddion prosiect

Gofynnodd un cyfranogwr i Gordon 'Beth y mae'r datblygwr, Falck, yn ei gael allan o hyn – o'u safbwynt hwy?' Atebodd Gordon drwy ddweud bod y prosiect wedi'i gefnogi'n glir gan y gymuned yn y broses gynllunio. Gall y broses gynllunio gymryd deng mlynedd heb gefnogaeth y gymuned leol felly mae ennill eu cefnogaeth yn fantais fawr i'r datblygwr. Mae gan Falck berthynas gref â'r gymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan weithredol. Roedd y datblygwr wedi ystyried y buddion cymunedol wrth gyfrifo'r costau.

**Cyflwyniad 3 (Llandudno) a 7 (Abertawe):
Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol, Cydberchnogaeth: Newid y sgwrs**

Berry Jordan, Vattenfall

Cafwyd cyflwyniad gan Berry Jordan o Vattenfall yn y digwyddiadau yn Llandudno ac yn Abertawe, yn sôn am waith Vattenfall gyda chymunedau yn yr Alban. Canolbwyntiodd ar 'gydberchnogaeth' gan ddisgrifio sut y mae cydberchnogaeth yn gweithio yn yr Alban. Eglurodd pam fod Vattenfall yn cynnig cydberchnogaeth a beth yw'r risgiau a'r manteision.

Yn Nenmarc mae gan gymunedau hawl gyfreithiol i fuddsoddi hyd at 20% mewn datblygiadau adnewyddadwy. Mae'r nifer sy'n manteisio'n amrywio gyda rhai cymunedau'n awyddus i fuddsoddi ac eraill ddim.

Mae'r diffiniad o gydberchnogaeth yn yr Alban yn wahanol i'r cais am dystiolaeth. Yn yr Alban, cydberchnogaeth yw lle mae grŵp cymunedol yn buddsoddi mewn prosiect ynni adnewyddadwy preifat. Trefniant rhwng y gymuned a'r datblygwr yw cydberchnogaeth.

Yn ôl Vattenfall, yn yr Alban maen nhw'n cael llai o sgysiau'n ymwneud â phobl yn hoffi tyrbinau neu beidio o'i gymharu â Chymru, oherwydd bod y teimlad o berchnogaeth yn gryfach. Dylai'r sgwrs gyda chymunedau lleol fod am ein system ynni. Mae cydberchnogaeth yn gynnig cwbl wahanol gyda theimlad o berchnogaeth i'r gymuned yn hytrach na dim ond ffrwd incwm arall. Gyda chydberchnogaeth mae risgiau a buddion i'r gymuned ac i'r datblygwr.

Gellid defnyddio ymddiriedolaeth ddatblygu'n lleol i ddelio â denu buddsoddiad a thalu incwm ar ran cymuned, neu gallai unigolion yn y gymuned wneud buddsoddiad ariannol.

Eglurodd Berry sut y mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn cyfyngu cwmnïau i ddefnyddio gwybodaeth ffeithiol wrth werthu cyfranddaliadau. Roedd Vattenfall wedi comisiynu Abundance i helpu gyda gwerthu cyfranddaliadau i gymunedau a chydymffurfio â rheolau'r FCA.

Ychydig iawn y mae'r cyhoedd yn ei wybod am gydberchnogaeth. Rhaid felly cael deialog hir a pharhaus i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen gan y gymuned a beth fyddai'r risgiau a'r buddion tebygol.

Dywedodd Berry fod gan Awdurdodau Lleol fynediad at fenthyciadau rhad.

Rhoddir cyflwyniad llawn Berry Jordan isod:



Vattenfall
presentation Swansea

Roedd cyfranogwyr Llandudno wedi gwneud sylwadau a gofyn cwestiynau o dan y themâu canlynol yn ystod y cyflwyniad:

Prosesau cynllunio a chaniatâd Llywodraeth yr Alban

- Allwch chi egluro beth yw rôl Llywodraeth yr Alban yn y broses ganiatâd? Cymeraf ei fod yn wahanol i Gymru a Lloegr?

Eglurodd Berry ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr yn yr Alban anelu at Femorandwm Dealltwriaeth (MoU) gyda chymuned. Rhaid sefydlu endid yn ymgorffori'r gymuned neu gymunedau. Mae'r awdurdod cynllunio yna'n asesu'r MoU. Mae cydberchnogaeth yn golygu llawer iawn o waith cyn i'r datblygiad gael ei adeiladu a gwneud unrhyw elw. Gall y broses hon bara am 6-10 mlynedd cyn adeiladu'r datblygiad.

Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Llywodraeth yr Alban i gadarnhau a oes angen MoU arnynt. Oherwydd na ellir gorfodi MoU yn gyfreithiol ni roddir pwysau iddo yn y broses gynllunio ac nid yw'n ofynnol gyda chais cynllunio. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol i'r gymuned ddatblygu MoU gyda datblygwr i fod yn glir beth fyddai rolau'r naill a'r llall mewn datblygiad ynni adnewyddadwy.

Rhaid cyfateb y budd ariannol o gydberchnogaeth i flaenoriaethau'r gymuned ond mae budd economaidd net yn ystyriaeth allweddol o'r elfen yma o'r cynnig cynllunio. Mae hyn yn golygu bod y budd cymunedol a gynhyrchir drwy gydberchnogaeth yn fwy tebygol o fod yn weithredu sy'n creu gwaith neu fudd economaidd arall.

- Mae Llywodraeth yr Alban yn gofyn bod gan 50% o gynlluniau a ganiateir berchnogaeth leol. Beth sy'n digwydd ar ôl cyrraedd y 50%? Ai targed blynyddol neu fisol ydyw?

Cydraddoldeb rhwng cymunedau

- A fydech yn dweud bod rhai cymunedau mewn sefyllfa well i rannu perchnogaeth a buddion nag eraill? e.e. oherwydd daearyddiaeth, gwledig a threfol, poblogaethau mudol a rhai statig. Os gwir, a oes modd i boblogaethau trefol mudol elwa o gydberchnogaeth?

Yn ôl Berry, dylai'r sgwrs gyntaf â'r gymuned drafod beth ym marn y gymuned yw 'lleol' er mwyn diffinio ffiniau'r ardal y byddai angen ei chynnwys. Unwaith y bydd datblygwr wedi cynnig cyfranddaliadau i gymuned, gallai ehangu'r cynnig i grwpiau eraill er enghraifft, dinasoedd eraill yng Nghymru neu unrhyw fuddsoddwr yn y byd.

- Ydy prosiectau adnewyddadwy cymunedol yn creu loteri codau post o'r budd i gymunedau? Ydy hyn yn deg?

Cododd y cyfranogwyr yn Abertawe sylwadau a chwestiynau o dan y themâu canlynol yn ystod cyflwyniad Berry Jordan:

Ynni Lleol

- Gallai'r term 'ynni lleol' ymgorffori sbectrwm o drefniadau. Mae'r cais am dystiolaeth fel 'ymbarél' perchnogaeth leol a chydberchnogaeth yn ffurfio un rhan o hyn.
- Mae perchnogaeth leol yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy.

Cynllunio

- Mae diffyg perthnasoedd perchnogaeth gymunedol yn y system gynllunio'n broblem ac yn risg i ddatblygwr.
- Yn yr Alban mae cysylltiad rhwng cael caniatâd cynllunio a datblygu prosiect ar sail cydberchnogaeth.
- Mae angen profi bod budd economaidd net o brosiect yn yr Alban.
- Ydy Vattenfall yn cyfrannu at y cyngor cyfreithiol a roddir i'r gymuned oherwydd y byddai o fudd i'w prosiect o ran cael caniatâd etc?

Cymunedau

- Gall datblygwyr gefnogi'r cymunedau llai abl / uchelgeisiol i weithio ar brosiect cydberchnogaeth.
- Mwy'n byd o bobl sy'n rhan o ynni adnewyddadwy, mwy'n byd yw'r gefnogaeth ac mae mwy o bobl yn ei 'hoffi' unwaith eu bod yn cymryd rhan. Mae hyn yn newid y ddeialog 'nhw' a 'ni'.
- Rydym wedi arfer â siarad am fudd cymunedol ond mae cydberchnogaeth yn gwbl wahanol. Cynnig masnachol i gymunedau fynd yn 'rhannog' mewn datblygiad ydyw. Mae'r risgiau'n uwch, ond felly hefyd y budd ariannol.
- Beth y mae 'ardal yr effeithir arni' yn edrych fel yn yr Alban?

Cyllid

- Mae angen mynediad at eu cyllid ariannu dyled eu hunain ar gymuned (lefel briodol y gall ei chynnal). Unwaith y bydd yn cael ei ad-dalu, bydd ffrwd incwm.
- Mewn byd ôl-gymhorthdal, mae angen cyllid ariannu dyled hirdymor. Unwaith y bydd y gymuned yn gorffen talu'r ddyled yn ôl, daw arian i mewn i'r gymuned.
- Yn yr Alban rhaid i ddatblygwyr brofi y bydd y prosiect yn cynhyrchu budd economaidd net.
- Gall cydberchnogaeth fod yn fenter hirdymor gyda'r trafodaethau cychwynnol yn disgrifio'r cysyniad a siarad am y goblygiadau cyfreithiol ac ariannol. Yn yr

Alban mae swyddogion datblygu Local Energy Scotland yn barod i roi cyngor diduedd a mynediad at gyllid.

- Gall incwm o rent fod yn ddadleuol oherwydd dim ond y tiffeddiannwr sy'n elwa, nid y gymuned gyfan.
- Mae'n anodd gwneud i gyllid ar gyfer cydberchnogaeth wneud synnwyr ar y funud, yn enwedig drwy gyfranddaliadau.
- Mae angen cyfateb cyfranddaliadau / cyllid torfol gyda chymunedau'n mynd yn rhannog mewn cyllid benthyciad. Bydd datblygwyr ond yn gwneud hyn yng Nghymru os oes cymhelliad i ddewis cydberchnogaeth.
- Mae costau ynghlwm â chydberchnogaeth – mae Vattenfall wedi buddsoddi yn hyn i wthio mwy o gydberchnogaeth.
- Mae'n anodd i gymuned drefnu cyllid ariannu dyledion i gyllido trefniadau cydberchnogaeth. Mae grantiau'n fwy priodol.
- Sut y mae cyrraedd y rhannau hynny o'r gymuned na fedrant fforddio buddsoddi?
- Yn y farchnad ynni bresennol, mae'n anodd iawn cael y cyllid i wneud synnwyr. A fyddai buddsoddiad drwy gyllid torfol / Banc Cymru plc yn bosib?
- Mae'r cymunedau y mae Vattenfall yn gweithio gyda nhw yn yr Alban yn dlawd o ran amser a chyfoethog o ran arian. Mae buddsoddi mewn cynllun lleol yn ffordd glir y gall pobl leol ddangos eu cefnogaeth i brosiect.
- Mae cylchredeg arian yng Nghymru o fudd i gymunedau lleol.
- Mae angen i gymunedau ystyried y buddion sydd ganddynt mewn golwg a sut i ddyrannu'r arian i sicrhau'r buddion hyn.

Rheolau Llywodraeth yr Alban ar gydberchnogaeth o ynni adnewyddadwy

- Mae angen tystiolaeth (gan y datblygwr) bod y cynnig o gydberchnogaeth yn ddiffuant – cofnodion cyfarfodydd, sgwrsiau etc.
- Dylai datblygwyr ddangos bod y gydberchnogaeth yn ddiffuant. Fodd bynnag, nid yw'r broses gynllunio'n rhoi unrhyw bwysau i hyn.

Modelau perchnogaeth

- Pa fathau o gydberchnogaeth y mae Vattenfall wedi eu defnyddio?

Yn yr Alban mae Vattenfall wedi dewis tri model yn bennaf:

- rhannu ased, lle mae'r gymuned yn berchen ar gyfran o'r ased;
 - rhith-berchnogaeth, neu rannu refeniw fel y'i gelwir, lle mae cymuned yn berchen 'tybiannol' ar x% o'r datblygiad; a
 - cyd-fenter, lle mae datblygwr a chymuned yn rhan o ddatblygiad gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys hawliau pleidleisio, sy'n gallu bod yn drafferthus i ddatblygwyr.
- Rhannu refeniw yw'r model sy'n well gan Vattenfall.
 - A oes problem tryloywder os dewisir rhannu refeniw? Hyd yn oed os nad oes cyfrifoldeb cyfreithiol i ymgynghori ar benderfyniadau, mae datblygwyr yn awyddus i gael deialog. Enillir ymddiriedaeth y gymuned a theimlad o dryloywder drwy annog ymgysylltiad hirdymor y gymuned.

Cyflwyniad 5: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol: Tair gêm fwrdd y tu allan i Abertawe (cyflwyniad 1 yn Abertawe)

Chris Blake, Ynni Cymunedol Cymru

Rhoddodd Chris Blake o Ynni Cymunedol Cymru gyflwyniad ar berchnogaeth leol o ynni adnewyddadwy'n defnyddio'r gyfatebiaeth o dair gêm fwrdd.

Nododd Chris ba mor bwysig oedd targedau ynni Llywodraeth Cymru, yn enwedig y targed i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030 a'r targed bod cymunedau lleol yn berchen ar 1GW o'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru erbyn 2030.

Defnyddiodd Chris gyfatebiaeth y gêm Nadroedd ac Ysgolion i ddangos y pethau sy'n effeithio ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae'r ysgol Tariffau Cyflenwi Trydan (FiT) wedi mynd felly bydd llai o gymorth i ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Bydd rhyddhad o dalu ardrethi hydro'n bwysig yn y dyfodol ac yn ysgol fach yn y gyfatebiaeth nadroedd ac ysgolion.

Mae cyfyngiadau grid yn neidr fawr yn y gyfatebiaeth. Sut y gallwn gyflwyno prosiectau ar y raddfa angenrheidiol gyda'r cyfyngiadau ar y rhwydwaith?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ysgolion defnyddiol fel yr Ardaloedd Chwilio Strategol o dan TAN8 a thrwy ddefnyddio'r ystad gyhoeddus a weinyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Defnyddiodd Chris gyfatebiaeth y gêm Monopoly i drafod materion ariannol perthynol i ddatblygiadau adnewyddadwy. Cadw'r arian a gynhyrchir gan brosiectau ynni yn yr economi leol. Fel arfer mae rhent o brosiectau adnewyddadwy'n aros yn yr ardal gyda pheth o'r incwm rhent yn mynd y tu allan i Gymru, er enghraifft lle mae ystadau mawr gan dirfeddianwyr y tu allan i Gymru. Mae incwm rhent yn gymharol fach; yn gyfrannol, mae elw o gyfranddaliadau mewn prosiect ynni adnewyddadwy'n fwy, a llawer ohono'n mynd y tu allan i Gymru.

Mae creu gwaith hefyd yn bwysig er nad yw ynni adnewyddadwy'n cyfrannu'n sylweddol yn hyn o beth. Mae prosiectau llai'n creu peth gwaith lleol; fel arfer mae prosiectau mwy'n llwyddo llai i gadw'r budd yn lleol oherwydd eu bod yn aml yn cyflogi staff o ardaloedd eraill.

Defnyddiodd Chris y gyfatebiaeth o wyddbwyll i egluro sut y mae angen i bawb weithio gyda'n gilydd i gwrdd â'r targedau ynni adnewyddadwy oherwydd nid yw un darn byth yn ennill gêm o wyddbwyll. Rhaid i lywodraeth, cymunedau ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd.

Rhoddodd Chris yr enghraifft o brosiect sy'n defnyddio asedau tir lleol gyda'r grŵp cymunedol yn annog defnyddio ynni'n lleol.

Mae cyflwyniad llawn Chris isod.



Cyflwynodd y cyfranogwyr sylwadau o dan y themâu canlynol mewn ymateb i gyflwyniad Chris:

Cyllid

- Dylid sefydlu llwyfan buddsoddi tebyg i un Abundance ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Roedd cyfranogwr arall yn cytuno â'r syniad hwn gan awgrymu bod gormod o gynlluniau buddsoddi rhy gymhleth i ddewis ohonynt a bod hyn yn troi arweinwyr busnes i ffwrdd o'r syniad o ymrwymo. Mae angen llwybr cliriach a mwy dibynadwy ar fuddsoddwyr.
- Gallai'r sector cyhoeddus ddefnyddio ei gaffael o drydan drwy Gytundebau Prynu Pŵer i wneud prosiectau'n hyfyw.
- Cyllid rhad yw'r ateb i gynnydd oherwydd mae'r elw'n fach ac mae'n dod yn fwyfwy anodd talu difidend hael. Gallai awdurdodau lleol ddarparu benthyciadau llog isel hirdymor.
- Fel y saif pethau, nid oes cymhorthdal ar gyfer prosiectau adnewyddadwy. Byddai rhyw fath o gynllun sefydlogi prisiau'n cael ei groesawu.
- Ar hyn o bryd cyfran fach o'r elw o ynni adnewyddadwy yw budd cymunedol.
- Mae angen cadw'r arian yng Nghymru.
- Gall awdurdodau lleol ddarparu benthyciadau rhad a thir ac ymgysylltu â'r gymuned leol.
- Gall benthycia darbodus drwy awdurdodau lleol weithio, fodd bynnag gallai'r gyllideb refeniw fynd i gyd ar weinyddu benthyciadau ac nid ar y gwasanaethau sydd angen i awdurdodau lleol eu darparu. Er bod benthyciadau ar log o 0.2% ar gael i awdurdodau lleol, mae rhannau eraill o Lywodraeth Cymru'n disgwyl i fenthycia darbodus gael ei ddefnyddio ar nifer o bwrpasau eraill. Mae awdurdodau lleol yn dibynnu ar y benthyciadau hyn ar gyfer ysgolion, ffyrdd a nifer o brosiectau eraill. Fodd bynnag, gall ynni adnewyddadwy gynhyrchu ffrwd incwm gysylltiedig.
- Mae gan yr Almaen fanciau cyhoeddus sy'n cynnig benthyciadau rhad. A fyddai modd sefydlu Banc Cyhoeddus i Gymru? Gallai banciau cyhoeddus hefyd helpu i leihau cost cyllid. Mae gwaith ar y gweill i ystyried sefydlu Banc Cyhoeddus yng Nghymru.
- Defnyddiwyd symiau cynaliadwy o fenthycia lleol mewn gwledydd eraill fel yr Almaen.

Targedau

- Pa mor heriol yw targedau Llywodraeth Cymru a sut y byddwn yn eu cyrraedd yn yr amgylchedd cyllido sydd i ddod?
- Rydym mwy na hanner ffordd i gyrraedd y targedau hyn ac mae gennym 14 blynedd i gyrraedd yr hanner arall, fodd bynnag bydd hynny'n dalcen go galed.

Cyfyngiadau grid

- Gallai cyfleusterau batri gynorthwyo i ateb y broblem o gyfyngiadau grid.
- Nid oes bob amser gapasiti yn y rhwydwaith i dderbyn cynhyrchu newydd. Ai cwestiwn o gost a phwy sy'n talu ydyw?
- Mae angen gridiau clyfrach ar Gymru ac i gyfateb y galw i'r cyflenwad.
- Nid yw PV at ddefnydd ar-y-safle wedi'i gyfyngu gan gyfyngiadau grid. Gallai a dylai pob ysbyty, carchar, cartref gofal etc fod yn cynhyrchu ar-y-safle.
- Beth yw'r potensial ar gyfer gwifrau / cysylltiadau preifat rhwng cynlluniau a chymunedau i leihau problemau grid?

Gwres

- Beth am wres? Mae pwyslais y cyflwyniad wedi bod ar drydan.
- Targedau trydan adnewyddadwy oedd rhai Llywodraeth Cymru felly mae ffocws y cais am dystiolaeth ar drydan, ond gallai hefyd fod yn berthnasol i wres. Yn ôl y cyflwyniad cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar bolisi gwres yn fwy manwl nes ymlaen yn y flwyddyn, i ymateb i argymhelliad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU bod angen strategaeth wres ar Gymru. Mae nifer o'r prosiectau byw'n glyfar yn rheng flaen y gwaith o ddarparu gwres wedi'i ddatgarboneiddio.
- Dim ond mewn adeiladau gydag inswleiddio da y mae gwres yn gwneud synnwyr. Mae angen safon cartrefi di-garbon, ac ailwampio o ddifrif fel y Rhaglen Energiesprong.

Amodau cynllunio

- Mae angen gwella amodau cynllunio y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA). Gallai rhwymedigaethau'r Ddeddf Llesiant fod yn ddefnyddiol i wella canlyniadau o gynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy - yn enwedig y tu allan i'r ardaloedd SSA.

Gweithio gyda'n gilydd

- Defnyddio asedau cyhoeddus ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy. Er enghraifft, prosiect ynni gwynt ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) oedd prosiect Alwen. Mae'n enghraifft dda o brosiect cydberchnogaeth yn cael ei ddatblygu.
- Mae angen partneriaid dibynadwy a newid ymddygiad.
- Gallai cymunedau helpu mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy weithio gyda datblygwyr, gallai cymunedau gael mynediad at gyfalaf a mentro mwy. Gallai cymuned helpu i ennill cefnogaeth i brosiect, yn enwedig lle byddai'r budd a'r incwm yn dod yn uniongyrchol yn ôl i'r gymuned.
- A allai cyfuniad o grwpiau systemau domestig annog perchnogaeth leol?
- Dylid ystyried Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) fel rhai a allai wthio cynlluniau cymunedol, nid dim ond awdurdodau lleol.

Modelu

- Gallai awdurdodau lleol a NRW foddelu safleoedd sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer ynni adnewyddadwy.

- Roedd Dinas Efrog wedi mapio lle gallai prosiectau ynni adnewyddadwy fod yn dderbyniol. Ydy hyn yn digwydd yng Nghymru?
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi adnabod safleoedd addas, ond mae angen cyfathrebu hyn. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn gallu dangos ble mae safleoedd addas yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gwneud peth mapio strategol yn defnyddio'r Pecyn.
- Gallai Atlas Ynni i Gymru fodelu a chyfathrebu pa safleoedd sy'n addas ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo ar gyfer Atlas Ynni i Gymru ac mae gwaith yn cael ei wneud i gwmpasu'r prosiect.
- Mae mapio ynni strategol wedi'i wneud yn Nhalgarth lle maen nhw'n ymgynghori i ganfod pa safleoedd sy'n ariannol hyfyw a derbyniol i'r cyhoedd.
- Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi modelu'r potensial gwres yn eu hardal yn defnyddio offeryn Rhwydweithiau Llwybr Ynni'r Sefydliad Technolegau Ynni.

Cyflwyniad 6: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol (cyflwyniad 2 yn Abertawe)

Martyn Popham, Cenin Renewables

Roedd cyflwyniad Martyn Popham o Cenin Renewables yn trafod prosiect Cenin Renewables ym Mharc Stormy, Pen-y-bont ar Ogwr.

Eglurodd Martyn fod gan Cenin safle integredig gyda solar PV, ynni gwynt a chyfleuster Treulio Anaerobig i dderbyn gwastraff bwyd. Mae Cenin Renewables yn gweithio i sicrhau bod cynlluniau'n cael effaith gadarnhaol ar economi leol y tu allan i'r safle ei hun.

Mae'r safle'n cynhyrchu digon o ynni i gyflenwi'r dref leol (tua 10,000 o gartrefi).

Dechreuodd y gwaith o ailddatblygu'r safle tir llwyd yn 2007 drwy glirio'r safle. Dechreuodd y prosiect adnewyddadwy gyda gosodiad PV 'bach' yn 2011. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r cyfleuster Treulio Anaerobig yn gynnar yn y prosiect ond cymrodd naw mlynedd cyn i hyn wneud synnwyr economaidd a dechrau ar y gwaith. Yn y cyfamser cafodd un tyrbîn gwynt ei ddatblygu (ac yna mwy). Mae gan Cenin Renewables dŷ carbon isel bellach hefyd.

Mae cysylltiad grid cost isel a defnyddio ynni ar un safle'n unig yn fwy darbodus. Llwyddodd y safle i ddenu cyfleusterau batri mawr drwy broses gystadleuol sy'n cydfynd â nod y cwmni o arddangos prosiectau arloesol ar y safle.

Marathon ac nid ras can medr yw symud at ddyfodol carbon isel, rhaid cwblhau prosiect a symud ymlaen i'r nesaf.

Rhoddir cyflwyniad Martyn yn llawn isod:



Cenin Renewables
26 Feb 2018.pdf

Mewn ymateb i gyflwyniad Martyn, cyflwynodd y cyfranogwyr sylwadau a chwestiynau o dan y themâu canlynol:

Cynllunio

- Os yw awdurdodau lleol yn sefydlu ardaloedd lle byddai ynni adnewyddadwy'n fwy tebygol o dderbyn caniatâd cynllunio, a fydd modd / rhwymedigaeth i'r ardaloedd hyn gael eu datblygu gan ddatblygwyr ynni lleol (neu gallai datblygwyr mawr gyda digon o gyfalaf gael gafael ar yr hawliau tir cyn datblygwyr lleol)?
- Nid yw hanes a thaith cynlluniau cymunedol drwy'r system gynllunio wedi bod yn galonogol iawn bob tro. Pa mor sâff yw'r gosodiad y bydd cynlluniau cymunedol yn wynebu llai o wrthwynebiad?
- Sut y gallwn ddefnyddio ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig drwy gydweithrediad ac ymgysylltu, i ennill cefnogaeth leol a gwleidyddol fel bod cynlluniau'n cael mwy o rwydd hant drwy'r system gynllunio?

Cyllid

- Mae angen cyllid cost isel os yw prosiectau adnewyddadwy i lwyddo oherwydd mae'r holl nad ydynt yn cychwyn o gwbl. Mae digon o gyllid moesegol ar gael ond a oes angen brocer i roi prosiectau da mewn cysylltiad â chyllid da?
- Mae datgysylltiad rhwng cyllidwyr a chynlluniau a rhaid canfod ffyrdd i ddod â nhw at ei gilydd.
- Dim ond cynlluniau mawr y mae buddsoddwyr mawr eisiau buddsoddi ynddynt. Mae cyllid ar gyfer cynlluniau bach yn anoddach. Er hynny, cynllunio prosiect hyfyw yw'r prif rwystr nid y cyllid.
- Mae ynni adnewyddadwy wedi dod yn un o'r mathau rhataf o ynni ac erbyn hyn yn rhatach na thanwyddau ffosil. Mae cost gwynt ar y môr wedi dod i lawr yn sylweddol. Y darparwr cost isaf sy'n ennill.
- Mae carbon yn bwysig os gallwch fforddio iddo fod, fodd bynnag i lawer o bobl mae bwyd etc yn bwysicach. Mae angen i unrhyw fudd ariannol fod o fudd i bawb.
- Byddai perchnogaeth gymunedol rhwng 20-30% yn ddelfrydol.

Gwerth prosiectau adnewyddadwy bach

- Mae prosiectau adnewyddadwy mawr yn effeithlon ond mae rhesymau fyrdd dros ganiatáu prosiectau ynni bach at ddefnydd lleol. O ran creu cymhelliad, datblygu sgiliau, rheoli'r galw, arloesi ac yn enwedig os oes neu os dylai fod gan bobl hawl i gynhyrchu eu hynni adnewyddadwy eu hunain, pe bai'r gymuned yn dymuno hynny.
- Efallai y dylai cynlluniau llai uno i greu un cynllun mawr.
- Mae prosiectau adnewyddadwy'n cael effaith adfywio gan fuddsoddi mewn ardal.
- Martyn, sut y byddai modd trosi dy stori i fyd ôl-gymhorthdal?
- Mae gwerth economaidd o osod PV ar dir gyda gwerth amaethyddol isel. Mae defaid yn pori o dan y panel. Llyn ac ardal i fywyd gwyllt.
- Mae Cenin hefyd yn edrych ar y buddion y gall eu cynnig y tu allan i'r prif safle gyda datblygiad PV ochr yn ochr â defaid yn pori. Cafodd tir prysg ei adnewyddu i

greu cyflenwad ynni adnewyddadwy (gweithgaredd economaidd) gydag ardal bori a bywyd gwyllt well.

- Mae Cenin yn gweithio gydag ysgolion lleol i ariannu dysgu am faterion amgylcheddol, yn enwedig ysgolion mewn ardal arbennig o ddifreintiedig. Mae'r ymweliadau gan grwpiau ysgol yn gyfle i glywed barn pobl ifanc, er enghraifft maen nhw'n awyddus i herio aelodau etholedig i wella safonau ar gyfer adeiladau newydd.
- Mae Cenin yn awyddus i rannu gwybodaeth, creu gwaith a darparu addysg.
- Beth yw'r potensial ar gyfer prosiectau bach?

Dysgu o brosiectau eraill

- A oes ffordd o wybod pam nad yw prosiectau'n cychwyn o gwbl er mwyn gallu dysgu o fethiannau?
- Pa mor hawdd fyddai ailadrodd gwaith Cenin?
- Mae gwersi i'w dysgu o waith Cenin ond mae angen datblygu pob prosiect ar ei haeddiant ei hun.
- Mae ynni'n costio'n sylweddol i fusnesau.
- Mae PV solar mewn caeau amaethyddol yn cystadlu â chynhyrchu bwyd drwy wneud i ffwrdd â'r ynni i dyfu planhigion felly dylai datblygwyr ystyried gosod PV ar lethrau serth ac ar ymylon tir i greu micro-hinsawdd neu gysgod i dda byw.
- Roedd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddryslyd braidd ynghylch TAN8, o ran a ddylid gosod tyrbinau gwynt o gwbl y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol.

Trafodaethau grŵp

Yn y prynhawn, bu'r cyfranogwyr yn trafod yn fwy manwl y themâu allweddol a gododd yn gynharach yn y dydd.

Sesiwn brynhawn 1 Llandudno

Trafodaeth grŵp: Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod a chofnodi eu barn am yr heriau sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol. Fel gyda sesiynau'r bore, cododd themâu penodol o'r drafodaeth grŵp:

Cyllid

- Mae angen cyllid ar gyfer cymunedau a datblygwyr.
- Dylid darparu cyllid ar gyfer pob agwedd ar y broses gyda grantiau i gymunedau ar gyfer derbyn cyngor ar gydberchnogaeth.
- Mae toriadau i'r Tariffau Cyflenwi Trydan yn gwneud prosiectau'n llai economaidd.
- Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud datganiad heb ddarparu'r arian.
- Byddai benthyciadau llog isel gan Lywodraeth Cymru'n ddefnyddiol iawn.
- Mae cydberchnogaeth yn creu baich ariannol ychwanegol i'r datblygwr, sut y mae hyn yn wahanol i gronfeydd budd cymunedol?
- Gordanysgrieffio: mae trothwy ar gyfer buddsoddi, gall hyn arwain at siop os yw rhai aelodau o'r gymuned yn colli allan.
- Problemau gyda ffigurau cyn-ganiatâd enghreifftiol ac ati. Mae angen cynllun busnes ac ati ar gwmnïau.
- Mae colli cymhorthdal yn golygu bod datblygwyr preifat yn chwilio am ddulliau cyllido eraill. A fyddant yn chwilio am ddulliau cyllido eraill? Efallai drwy Gytundebau Prynu Pŵer gyda busnesau lleol.
- Mae angen i ddatblygwyr leihau costau oherwydd mae'n amser anodd iawn datblygu a gwneud i brosiectau weithio mewn byd di-gymhorthdal. A chymryd bod y gymuned hefyd yn elwa, mae cefnogi'r gymuned i fod yn y lle iawn i weithio gyda'r datblygwr yn drwm iawn ar adnoddau.

Modelau

- Model cyffredin mewn rhannau eraill o Ewrop, perchnogaeth gymunedol 100%
- Beth yw'r torbwynt i'r datblygwr? A fyddai modd sicrhau bod 50% o'r budd ar gael i'r gymuned?
 - Byddai Vattenfall yn dweud na i hynny, oherwydd rhaid iddynt ystyried risg ac elw. Gallai'r gymuned hefyd fod yn atebol am risg.
- Mae angen modelau ariannol enghreifftiol sy'n rhoi syniad realistig i'r "gymuned" o'r budd ariannol neu'r elw posib.
- A oes modd i annog cynlluniau mawr sydd eisoes wedi'u datblygu i ychwanegu elfen o berchnogaeth leol ar ôl sefydlu prosiect? Er enghraifft, bod Gwynt y Môr yn sicrhau mwy o berchnogaeth leol o'r budd sy'n llifo, os nad

cyfran fwy o'r elw? Hefyd, mae'r enghraifft o fferm wynt breifat yn cael ei phrynu gan gymuned yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

- Y model rhannu refeniw / rhith-berchnogaeth yw'r un mwyaf hyfyw i ddatblygwyr ei gynnig. Gall modelau eraill fod yn llawer mwy heriol. Yr her wirioneddol yw sut i gyllido'r berchnogaeth.
- O ystyried yr ymdrech sydd ei angen o du'r gymuned, a fyddai cronfa fudd gymunedol yn opsiwn gwell? Mae'r Alban yn disgwyl cydberchnogaeth a chronfa fudd; pa mor hyfyw fydd hynny yn y dyfodol? Mae un gymuned yn yr Alban (ardal denau ei phoblogaeth sydd taer angen y buddsoddiad) eisiau'r gronfa fudd. Mae dod at ei gilydd a sefydlu strwythur i reoli'r incwm yn her ddigon caled.

Gweithio gyda'n gilydd

- Mae gan ddatblygwyr a chymunedau wahanol ddiwylliannau; gall hyn wneud dealltwriaeth a chyfathrebu'n bur anodd ar y dechrau.
- Gall cydberchnogaeth atal cymuned rhag creu rhwystr i ddatblygiad.
- Mae gweithio gyda chymuned yn cymryd amser, mae angen sêl bendith pawb bron i fynd â'r maen i'r wal.
- Mae'r prosiectau cymunedol sydd ar eu traed yn negodi'r holl gytundebau, y trefniadau technegol, cyfreithiol, ariannol a gweinyddol ac i wario unrhyw fuddion. Nid oes gan y grwpiau hyn adnoddau felly mae'n ymrwymiad mawr gan y gymuned. Gyda chydberchnogaeth gallai'r ymrwymadau hyn ofyn mwy o adnoddau fyth.

Cymorth

- Mae angen cymorth lleol sylweddol gan swyddogion datblygu i gynorthwyo grwpiau cymunedol ar draws y bwrdd.
- Dylai'r swyddogion datblygu gael eu darparu gan Lywodraeth i roi cyngor a chymorth ar amrywiol faterion a godir gan y gymuned.
- Ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i wirfoddolwyr sy'n rhan o ddarparu cynlluniau cymunedol, o'i gymharu â'r adnoddau sydd gan ddatblygwyr, e.e. lefelau adnoddau a chyllidebau blynyddol ansicr i'w cynnal.
- Mae angen arweiniad ar grwpiau cymunedol i fynd drwy'r broses gynllunio.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth o ble i gael cymorth, e.e. ni wyddai un cyfranogwr, oedd yn gweithio mewn ynni adnewyddadwy, am 10 mlynedd bod tîm yn Llywodraeth Cymru'n gweithio ar hyn.

Sgiliau

- Mae cymuned sydd â'r sgiliau i sefydlu cynllun yn fwy tebygol o fod yn gefnog ac efallai nad oes gymaint o angen buddion cymunedol ac incwm ychwanegol arni.
- Yr ateb i'r broblem o fod â digon o sgiliau mewn grŵp cymunedol yw cyflawni archwiliad sgiliau ac ystyried pwy sydd angen iddynt fod ar fwrdd y grŵp? Gallai'r grŵp yna recriwtio i lenwi'r bwlch sgiliau.

Annog cymunedau i ymgysylltu

- Os yw cymuned eisiau hyn, mae'n debyg ei bod eisoes yn ei wneud.
- Rhaid cael hyblygrwydd o gwmpas buddion cymunedol.
- Weithiau mae perthynas o 'nhw a ni' rhwng datblygwyr a chymunedau.
- Weithiau mae materion diwylliannol yn codi fel yn y llyfr 'A Machynlleth triad' sy'n trafod ffermydd gwynt y Saeson atgas.
- Mae cael cymuned i ddangos diddordeb yn un o'r pethau anoddaf os nad yw'n ymddengys bod llawer o fuddion.
- Os nad yw cymuned yn hoff o brosiect, ni fydd unrhyw gymhelliad ariannol efallai'n ddigon.

Cyrff cyhoeddus

- Mae awdurdodau lleol yn rhwystr, er enghraifft mae ffurflenni Gwynedd yn rhy gymhleth.
- Ni ellir priodoli adnoddau cenedlaethol NRW i gymuned leol. Gallai asedau cyhoeddus gynorthwyo cymuned leol. Ni all cymunedau gael gafael ar adnoddau sy'n amgylchynu'r gymuned.
- Gallai awdurdodau lleol a NRW chwarae rôl allweddol mewn cael a rhoi benthyg arian cyfalaf i grwpiau cymunedol i fynd yn rhannog mewn prosiect, neu gynorthwyo i roi budd i'r gymuned mewn ffyrdd eraill.
- Mae rhai cynghorau cymuned yn dueddol o edrych ar yr ochr dywyll.

Polisi

- Nid yw polisi'r DU yn caniatáu ar gyfer ynni adnewyddadwy.
- Mae perygl i ni wneud y system ganiatâd yng Nghymru'n rhy gymhleth fel bod datblygwyr yn troi at Loegr i chwilio am safleoedd lle nad oes y cymhlethdod ychwanegol o berchnogaeth leol.
- Mae system yr Alban yn gor-gyfyngu braidd ac yn anodd ei darparu, nid yw'n galluogi arloesi.
- Ai perthnasol i ynni adnewyddadwy, ar y lan yn unig, yw perchnogaeth leol? Beth am ynni niwclear?

Grid

- Ni all y Grid Cenedlaethol gefnogi cerbydau trydan.

Cydraddoldeb

- Mae'n bwysig ceisio osgoi loteri codau post lle byddai cymuned yn elwa dim ond oherwydd ei bod yn agos at safle addas ar gyfer cynhyrchu.
- Mae cymunedau llai unedig yn llai tebygol o fod yn gallu gweithio gyda'i gilydd i roi cychwyn i brosiect o'r fath.

Sefydlu a chynnal grwpiau cymunedol

- Gallai grwpiau llai profiadol gael eu mentora gan rai sydd eisoes wedi llwyddo

- Mae gan gymunedau clòs eu strwythur eu hunain ac felly'n fwy tebygol o lwyddo. Byddai hyn yn anoddach mewn cymuned fawr, neu ar raddfa fwy.
- Gallai fod yn syniad da trefnu secondiad, efallai gan ddatblygwr, i gynllun cymunedol am gyfnod byr iawn i reoli prosiect.
- Gall materion llywodraethu eithaf difrifol godi o ran cadw grwpiau lleol i fynd yn y tymor hir, yn enwedig pan fydd y 'sylfaenwyr' gwreiddiol yn ymddeol a symud ymlaen. Mae llawer iawn o'r bobl sy'n rhedeg cynlluniau'n hŷn neu wedi ymddeol sy'n creu problemau gyda gwybodaeth sefydliadol, ac olyniant. Bydd rhai o'r asedau hyn yn weithredol ymhen 50 mlynedd. Sut y mae cadw pethau i fynd wrth i gymunedau newid dros amser? Sut y gallwn gael pobl iau / sy'n dal i weithio i gymryd rhan er mwyn sicrhau parhad?
- Llwyddodd un cynllun i gael grant gan gwmni ynni i helpu myfyriwr i chwarae rhan ar fwrdd cynllun lleol.
- Mae angen gwahanol endidau cyfreithiol, er enghraifft corff ar wahân i ddsbarthu cyllid ar ran yr un sy'n ei gasglu yn y lle cyntaf.

Dod o hyd i safleoedd priodol

- Ydy'r cwmnïau mawr eisoes wedi prynu'r holl safleoedd gorau ar gyfer cynhyrchu?

Buddion cymunedol

- Sut y mae rhywun yn diffinio budd?, e.e. difidend, tariffau rhatach.
- Gall rhai gosodiadau, PV, ffermydd gwynt, arwain at lefelau isel o greu gwaith. Nid yw hyn yn helpu i greu gwaith yn y gymuned.
- Bydd gan y datblygwr gymhelliad masnachol. Fel unigolyn neu aelod o grŵp cymuned, pam y byddwn yn buddsoddi? Mae'n gamp gwerthu'r buddion meddalach.
- Mae angen i ddatblygwr egluro'r buddion yn lleol os yw grŵp cymunedol yn buddsoddi mewn prosiect cydberchnogaeth.
- A ddylid cael cyfyngiadau / trothwyon / canllawiau ar sut y mae cymunedau'n defnyddio incwm?

Gwersi a ddysgwyd

- A ddylem ofyn iddynt ba wersi y maen nhw wedi'i ddysgu o'u persbectif hwy am y broses o weithio gyda Falck yn Fintry?

Sesiwn brynhawn 1 Abertawe

Trafodaeth grŵp: Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol?

Gofynnwyd i gyfranogwyr Abertawe drafod, mewn grwpiau, yr heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol o ynni adnewyddadwy a chofnodi eu trafodaeth. Grwpwyd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn o dan y themâu canlynol:

Cynllunio

- Mae cynllunio'n cael ei weld fel risg fawr i'r datblygwr, mae angen lleihau'r rhwystrau i ddatblygu yng Nghymru.
- Mae budd cymunedol yn cael ei weld fel mantais gynllunio.
- Ni all y gymuned fod yn ystyriaeth gynllunio, sut y mae'r Alban yn gwneud hyn?
- A fyddai targedau cynllunio'n helpu datblygiadau adnewyddadwy perchnogaeth leol i gael caniatâd?
- Mae mantais glir o fod â phartner cymunedol.

Caffael

- Mae dulliau caffael yn ei gwneud yn anodd sicrhau bod buddion fel swyddi'n aros yn lleol.
- Gellid defnyddio cyflenwyr lleol, a fyddai'n helpu i ennill cefnogaeth leol.
- Mae caffael ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr athroniaeth 'pryn fawr, pryn rad' nad yw'n helpu gyda defnyddio cyflenwyr lleol.

Diffiniadau

- Mae angen diffinio'r ardal leol yn well i fod yn ddefnyddiol.

Sector cyhoeddus

- Dim ond am 8% o gynlluniau adnewyddadwy perchnogaeth leol y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol. Gallai'r sector cyhoeddus gynhyrchu llawer mwy ar-y-safle ac efallai prynu gan gyflenwyr lleol drwy systemau fel Piclo.
- Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio eu hystad a'u hasedau'n well i gynhyrchu, e.e. gofod to.

Lleoliad ynni adnewyddadwy

- Mae'r ystad gyhoeddus ar draws Cymru'n cynnig cyfle clir i gynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol, yn enwedig o ran galw ar-y-safle. Er bod y broblem gaffael yn parhau. Sut y gallwch ddefnyddio ffynonellau ynni ar-y-safle os yw'n gorfod mynd drwy gaffael wedyn?

Polisi

- Mae angen cydgysylltu polisiâu Llywodraeth Cymru, e.e. targedau perchnogaeth leol a tharged carbon niwtral 2030 y sector cyhoeddus. Gallai cyrff cyhoeddus brynu ynni gwyrdd o'r grid i gwrdd â thargedau ac efallai'n ansicr pwy sy'n berchen ar yr ynni y byddent yn ei brynu. Pam ddim datblygu mwy o asedau cynhyrchu ynni ar ystadau cyhoeddus gydag awdurdodau lleol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol etc, gan ddarparu ynni'n uniongyrchol ar-y-safle?
- A fyddai mwy o bobl efallai'n fwy parod i brynu ynni glân lleol am bris uwch na chyrff cyhoeddus sy'n ceisio gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus? Yr

holl bwynt yw rhoi'r elw gorau i'r cynhyrchydd pan ddaw'r cymhorthdal i ben. Mae gwahaniaeth mawr rhwng gwerthu trydan o brosiectau sy'n bodoli eisoes a chael Cytundebau Prynu Pŵer (PPA) i gynhyrchu o'r newydd. Mae'n anodd iawn i gyrff cyhoeddus ddefnyddio cyllid prynu trydan, sydd i gwrdd ag anghenion trydan pobl heddiw, i gefnogi cynhyrchu newydd.

- Mae cytundebau PPA yn sicrhau refeniw gwarantedig am nifer o flynyddoedd, sy'n helpu i godi cyllid.

Rhwystrau i ddatblygu

- O safbwynt y datblygwr, nid yw prosiectau mor sicr ag oeddent o'r blaen, felly nid yw'n hyfyw iddynt ychwanegu cynnwys y gymuned at y pwysau sydd ganddynt eisoes.
- Beth yw manteision perchnogaeth leol i ddatblygwyr?

Cyfyngiadau grid

- Mae seilwaith y grid yn rhwystro.
- Rhaid i'r datblygwr cyntaf ysgwyddo'r gost o ddarparu seilwaith newydd ond gall hyn fod yn amhosib i gymunedau (hyd yn oed os medrant adennill peth o'r gost gan brosiectau sy'n cysylltu wedyn).
- Mae'r ffordd y mae'r grid yn cyfrifo beth sy'n gallu cysylltu wedi dyddio. Ychydig iawn o ofod ychwanegol sydd ar gael ar gyfer datblygiadau carbon isel newydd oherwydd mae'r system reoleiddio'n parhau i dybio bod asedau mawr (e.e. Aberthaw) yn cynhyrchu 'drwy'r amser'.
- Mae gridiau lleol yn ateb posib – gall Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu annibynnol helpu, ond mae'n anodd dod o hyd i safleoedd lle gallai hyn fod yn briodol.

Gwres

- Mae angen strategaeth wres.
- Mae angen defnyddio Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu (cadwraeth tanwydd a phŵer) i wella safonau ar gyfer adeiladau newydd.
- Dylid datblygu cadwyni cyflenwi lleol fel model SPECIFIC Prifysgol Abertawe – perchnogaeth wedi'i gyrru drwy fodelau cyd-gyfranogwyr etc.

Mapio

- Mae angen map o safleoedd, prosiectau a chymunedau hyfyw yng Nghymru.
- Bydd map o safleoedd hyfyw'n helpu i ddenu cyllid.
- Nid oes gan Gymru fanc ffederal felly mae'r penderfyniadau buddsoddi'n aml yn digwydd yn Llundain.
- Dylid lledaenu'r wybodaeth am safleoedd sy'n addas i'w datblygu drwy dafod lleferydd a thafenni, nid dim ond drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mae angen i gynlluniau fod 'ar sail haeddiant' a sicrhau bod buddsoddiad yn digwydd yn y lle iawn.

Buddion i gymunedau

- Nid yw cyfle i fuddsoddi ar ei ben ei hun yn hael ac efallai na fyddai'n cynnig gwir fudd i'r gymuned oherwydd ei fod wedi'i gyfyngu i bobl sy'n gallu fforddio buddsoddi. Fodd bynnag, dyma realiti'r costau datblygu presennol o'i gymharu â'r incwm. Nid oes digon o elw i fod yn hael.
- Mae defnyddwyr yn prynu trydan am tua 15 ceiniog y kW a chynhyrchwyr yn ei werthu i'r grid am 5 ceiniog y kW; mae'r gwahaniaeth hwn yn golygu bod y rhai sy'n cynhyrchu trydan yn colli allan wrth brynu trydan yn ôl o'r grid.
- Gallai micro-grid gynnig y budd o drydan yn cael ei gynhyrchu'n lleol gyda chyflenwyr lleol i gynnig trydan am bris is i bobl leol pan fydd gwarged.
- A allai fod polisi caffael gwell sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer faint o fudd economaidd sy'n aros yng Nghymru?
- Mae diffyg perthnasedd perchnogaeth gymunedol yn y system gynllunio'n broblem oherwydd nid yw'r budd i'r gymuned yn ystyriaeth gynllunio, na phwy yw'r ymgeisydd. Mae hyn yn cyflwyno risg gynllunio. Pam nad yw Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfwriaeth i gadarnhau perthnasedd budd i'r gymuned?

Storio batri

- Mae storio batri'n ddrud. Ydy o'n bosib gwneud storio batri'n gost-effeithiol a chyflwyno gwerth batris ar gyfer rheoli'r galw?
- Gall storio batri gyflwyno cryn risg.

Arloesi

- Newid y sefyllfa risg gyfreithiol er mwyn caniatáu mwy o arloesi gyda gwybodaeth.
- Dylid darparu cyllid i arloesi mewn sefyllfaoedd gwirioneddol.
- Bydd mesuryddion clyfar pob hanner awr yn newid y defnydd a wneir o ynni.

Ymchwil a rhannu gwybodaeth

- Mae'n anodd cael cymheiriaid i adolygu ymchwil gweithredu cymunedol, ei gyfrif fel ymchwil a chael gafael ar gyllid ar gyfer ymchwil.
- Dylid defnyddio arloesi ac arbrofion fel rhan o apêl tref fel bod pobl yn gallu ymweld a dysgu am brosiect.
- Lle mae arloesi'n digwydd, dylem sicrhau ein bod yn dysgu o wybodaeth sydd eisoes ar gael ac o arferion da mewn ardaloedd eraill, e.e. data ar lefel dinas.
- Mae ymddiriedaeth yn eithriadol bwysig i ymgysylltu a buddsoddi'n lleol.
- Sut y mae pobl yn dod o hyd i'r dechnoleg iawn ar gyfer eu cartref, a gosodwr dibynadwy?
- Gellid hyfforddi gweision sifil yng Nghymru fel arbenigwyr drwy secondiadau yn yr Alban, neu rannau eraill o'r DU ac Ewrop.

Cymorth i'r gymuned

- Yn y diwedd, y datblygwr sy'n trefnu'r gymuned yn aml.

- Pwy yw grwpiau cymunedol lleol? Os na ellir eu cyrraedd, sut y gellir eu cael i ymgysylltu?
- A oes angen mwy o adnoddau arnom o ran swyddogion datblygu ar y ddaear yng Nghymru?
- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi cyngor am ddim.

Ymgysylltu

- Mae'n bwysig dod o hyd i falchder lleol a'i ddefnyddio fel sail i addysgu a chael pobl i ymgysylltu.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng chwilio am fuddsoddiad, rhoi budd i bobl ac ennill eu cefnogaeth.
- Mae'n bwysig ennill ymddiriedaeth y bobl lleol a'u cael i ymrwymo'n hirdymor.
- A allai'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai fod yn gorff cyfryngu mewn ardaloedd mwy difreintiedig lle gallai fod mwy o awydd i ymgysylltu?
- Mae'r heriau i gymdeithasau tai o gymryd rhan mewn ynni lleol yn cynnwys cwmpas mawr y gwaith, a'r gost.
- Mae tensiynau wedi bod rhwng awdurdodau lleol a chymunedau grymusol sy'n dyheu am ennill incwm o ynni adnewyddadwy – er bod y sefyllfa wedi gwella.

Cysylltu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- Dylid defnyddio'r pum ffordd o weithio (o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) i ddatblygu'r cysyniad, yn lle ceisio ei gyfiawnhau ar y diwedd.

Gweithio gyda'n gilydd

- Mae angen fforwm / craidd o 'bobl taro bargaen' lle gall yr holl bartïon 'gyplysu' a dod at ei gilydd.

Cyllid

- Mae cyllid yn fater pwysig iawn, os am greu 600MW o ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol faint y bydd hynny'n ei gostio ac o ble y daw'r cyllid? Mae angen cyllid cyfalaf.
- Mae angen cyllid ar gyfer camau cyntaf datblygiad sy'n cario mwy o risg.
- Gallai cyllid llwyfan buddsoddi, tebyg i un Abundance, fod yn opsiwn.
- A ddylid cael 'dull / potyn buddsoddiad' canolog i Gymru?
- Sut y gallwn greu cyfleoedd i gronfeydd pensiwn cyhoeddus fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy?
- Angen darparu cyllid rhad (2-3% APR) i sicrhau bod budd lleol o'r cynllun. Gallai awdurdodau lleol ddarparu benthyciadau oherwydd mae ganddynt fynediad at fenthyca rhad.
- Mae angen Banc Datblygu mawr i Gymru i gael a rhoi benthyg cyllid ar ran cymunedau ac i alluogi'r system.
- Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae digonedd o brosiectau posib o wahanol fathau'n cystadlu am gyllid awdurdod lleol. Mae yna hefyd uchafsymiau na all awdurdodau lleol fenthyca drostynt.

- Mae Cymorth gan y Wladwriaeth yn broblem gyda chyfraddau benthyca llesiannol, ond a oes ffordd o'i gwmpas?
- Mae cyllid gan Fanc Datblygu Cymru neu awdurdod lleol yn rhyddhau dulliau eraill mwy hyblyg o gyllido, e.e. cyfranddaliadau, bondiau etc.
- Mae angen ffocws ar y ffigurau sy'n gwneud i'r model cyllid ynni sy'n ategu cydberchnogaeth weithio.
- I sicrhau'r budd gorau o ynni adnewyddadwy, mewn gwirionedd rhaid i'r cyllid ddod o Gymru (p'un ai gan unigolion, banc, awdurdodau lleol, llywodraeth) fel bod unrhyw log ar y cyfalaf yn cael ei dalu'n ôl i sefydliadau yng Nghymru i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Sut y gellid gwneud hyn? Beth yw'r strwythurau a allai ei alluogi?
- Mae arian yn mynd allan o Gymru drwy gyflenwyr trydan, gallai arian cyfatebol lleol neu ddatblygiadau gwifrau preifat sicrhau bod mwy o arian yn mynd yn uniongyrchol i'r cynhyrchedd perchnogaeth leol.
- Efallai fod angen Cronfa Ynni Adnewyddadwy i Gymru fel y gall unigolion fuddsoddi ynddi ar gyfraddau is?

Gwerthu ynni'n lleol

- Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o sut y mae pŵer yn cael ei ddefnyddio ac yn creu budd lleol.
- Mae uchelgais hirdymor i werthu ynni i bobl leol yn y dyfodol. Sut y gallwn alluogi hyn?
- A fyddai'n bosib cysylltu cydberchnogaeth a chaniatâd datblygu i gyfrifoldeb i gyflenwi neu gynnig ynni rhatach i'r gymuned leol? Ar hyn o bryd nid oes gan awdurdodau lleol na datblygwyr gymhelliad i gefnogi hyn.

Helpu cymunedau difreintiedig

- Sut y gallwn helpu cymunedau difreintiedig i ennill elw o brosiectau ynni?
- Os nad yw cymuned yn gallu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, a fyddai buddsoddiad ehangach o Gymru'n parhau i arwain at deimlad da yn yr ardal lle lleolir y cynhyrchedd?

Ecsbloetio cymorth

- Nid ymarfer papur yn unig yw bod yn Gymreig, dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir am y nod a pheidio â gadael manau gwan i gwmnïau fanteisio arnynt.
- Mae risg fawr gyda'r diffiniad o berchnogaeth leol. Sut y mae atal cwmni mawr o'r tu allan i Gymru rhag sefydlu cwmni ar wahân i fod yn berchen ar ased a leolir ac sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru? Cafodd y cynlluniau PV 5+5 eu hecsbloetio gan rai datblygwyr a sefydlodd Gwmnïau Buddiannau Cymunedol i elwa o'r cynllun, ond amheus oedd ei werth i'r gymuned.

Ynni adnewyddadwy yn y cartref

- Mae angen i ni ddechrau integreiddio ynni adnewyddadwy mewn cartrefi newydd. Y rhain fydd cartrefi'r dyfodol, yn ynni-effeithlon gyda micro-gridiau a chyfleusterau storio ynni.
- Mae'n bwysig peidio â chodi tai sydd angen eu hôl-ffitio.

- Mae angen cynllunio trefi ac aneddiadau eraill yn holistig ar bob lefel gan gynnwys eu hanghenion ynni, oherwydd mae busnesau ac ystadau diwydiannol yn sugno gwres a thrydan.

Sesiwn brynhawn 2 Llandudno:

Trafodaeth grŵp: Pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau allweddol?

Yn ail sesiwn brynhawn y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn Llandudno nodi pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau a godwyd yn y trafodaethau'n gynharach yn y dydd.

Bwrdd 1: Cyllid ar gyfer cydberchnogaeth

Gofynnwyd i grŵp Bwrdd 1 drafod pa weithredu sydd ei angen i ddatrys y mater o **gyllid ar gyfer cydberchnogaeth**. Mae'r gweithredu wedi'i grwpio'n themâu.

Gweithredu sydd ei angen

Ffynonellau cyllid

- Cronfeydd pensiwn awdurdod lleol.
- Cyllid anfasnachol drwy awdurdodau lleol ar 2.7%.
- Benthyciadau meddal ar gyfraddau llog is na'r farchnad.
- Ydy cronfa fenthyca ganolog yn opsiwn hyfyw?

Modelau cyllid

- Mae angen modelu cyllid fel bod ffigyrau cydberchnogaeth a'r gymuned wedi eu cyfrifo o ran elw, llog a'r costau gweinyddol. Economegwyr Llywodraeth Cymru a ddylai wneud hyn i sicrhau niwtraliaeth. Mae problem gyda pheidio â datgelu gwybodaeth ariannol fasnachol sensitif wrth ddyfeisio'r model hwn.
- Sut y gall grwpiau cymunedol ddefnyddio'r modelau hyn?
- Dylai elw cymdeithasol ar fuddsoddiad fwydo i'r model.

Cymorth

- Darparu rhestr o ymgynghorwyr dibynadwy fel yn yr Alban.
- Mae angen llwyfan ar y we i gymharu ac asesu prosiectau cymunedol. Mae angen gallu lawrlwytho system fodelu i'r llwyfan hwn a chymorth gyda defnyddio'r model gan Lywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru ddylai dalu am y gwasanaeth cymorth, i gynnwys cyngor ariannol a chyfreithiol annibynnol.

Grantiau a benthyciadau

- Dylid rhoi grantiau ar gyfer cam datblygu prosiect i grwpiau cymunedol, hyd at y cam caniatâd. A ddylai fod grant, a'r swm yn gyfrannol i'r budd cymdeithasol, ar gyfer y cam adeiladu.

Barn y grŵp oedd mai Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am wthio'r gweithredu uchod ymlaen. Mae angen gweithredu cyn gynted â phosib a hynny'n dibynnu ar sêl bendith gwleidyddol.

Bwrdd 2: Cost a chymhlethdod

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 2 drafod y gweithredu sydd ei angen i ddatrys problemau **cost a chymhlethdod**. Mae'r gweithredu wedi'i grwpio'n themâu.

Gweithredu sydd ei angen

Canllawiau

- Dylid darparu canllawiau gan ystod o arbenigwyr (e.e. Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ynni Cymunedol Cymru, rhwydweithiau, datblygwyr, pobl cyllid) i grwpiau cymunedol ar sut i sefydlu perchnogaeth leol gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyngor ariannol, sut i sefydlu cwmni, sut i ddrafftio Memorandwm Dealltwriaeth, sut i osod targedau ac amserlenni.
- Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r pecyn gan Wasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru.
- Mae angen hyrwyddo adnoddau'n well, gan gynnwys adnoddau o'r tu allan i Gymru (UE), sydd eisoes ar gael.

Cymorth

- Mae angen mwy o sefydlogrwydd a pharhad i gefnogi cynlluniau'n hirdymor.
- Mae angen mwy o adnoddau ar gyfer mentora.
- Mae angen penderfynu'n gynt ar gymorth.
- Mae angen rhwydwaith cymorth i ddarparwyr, gan gynnwys adnodd Cwestiynau Cyffredin o ryw fath, a chymorth gan gymheiriaid. Mae angen cyfuno adnoddau ac arbenigedd.
- Gallai Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu chwarae rôl mewn mentora grwpiau i sicrhau cysylltiad.

Cyllid

- Mewn amgylchedd ôl-Brexit, mae angen rhywbeth yn lle'r cyllid a ddaeth gan yr UE yn y gorffennol. Awdurdodau lleol a ddylai fod yn gyfreithiol gyfrifol am hyn.

Cost cysylltu i'r grid

- Mae'r gost o gysylltu i'r grid tua £1m y filltir. Ai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y seilwaith?

Teimlai'r cyfranogwyr y dylai'r gweithredu uchod ddigwydd cyn diwedd 2018. Mae'r gweithredu'n dibynnu ar gefnogaeth y Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, grwpiau cymunedol, sefydliadau ariannol, sefydliadau cyfreithiol ac Ofgem.

Bwrdd 3: Angen capasiti i reoli

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 3 drafod pa weithredu sydd ei angen o ran **bod angen capasiti i reoli**.

Gweithredu sydd ei angen

Cyngor a chymorth

- Dylid rhoi arweiniad, cyngor a chymorth annibynnol, er enghraifft pecyn adnoddau neu dempled ar sut i symud ymlaen, a chyngor ar sut i baratoi astudiaeth ymarferoldeb, gweithio'n unol â NRW, cyflogi rheolwr prosiect.
- Mae angen cyngor da gan bobl gyda syniadau da. Dylai Llywodraeth Cymru greu llwyfan barn gyhoeddus ('tripadvisor' ar gyfer ymgynghorwyr).

Grŵp cymunedol

- Mae strwythur grŵp cymunedol yn bwysig. Mae angen archwilio sgiliau i sicrhau bod cynrychiolydd ar gyfer pob maes, er enghraifft cyfreithiol, cyllid.
- Mae'n dipyn o her i grŵp cymunedol ddangos bod ganddynt awdurdod i weithredu ar ran gweddill y gymuned. Ai cynghorau cymuned sydd yn y sefyllfa orau i weithredu ar ran cymuned? Mantais cyngor cymuned yw eu bod yn rhoi sylw i faterion capasiti, llywodraethu ac olyniant.
- Mae'r dafarn yn galon i'r gymuned yn aml a dylid eu defnyddio i ymgysylltu.

Ennill momentwm

- Hysbysebu ar Facebook i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau.
- Cafodd gynllun Ogwen ei gychwyn gan dri chyngor cymuned a lwyddodd i godi swm bach o arian UE gan roi cymhelliad iddynt weithio gyda'i gilydd.
- Cyfuno adnoddau o wahanol ffynonellau.

Broceriaid

- Mae angen broceriaid all ddod â chymunedau a datblygwyr at ei gilydd a'u helpu i wneud hynny, a hefyd i alluogi pobl i fuddsoddi, h.y. Abundance, Shareenergy.

Capasiti rhwydwaith

- Mae angen capasiti grid ar rwydwaith ar gyfer datblygiadau newydd.

Gwres

- Gall gwres rhwydwaith newid eu ffynhonnell wres yn llawer haws na chartrefi unigol. Dylid buddsoddi mewn gwres rhwydwaith nid rhwydweithiau nwy.

Credai'r cyfranogwyr y dylid gweithredu ar y pethau uchod cyn gynted â phosib. Roeddent yn teimlo y dylai targedau newydd gymell cynghorau cymuned i symud i mewn i'r maes hwn.

Bwrdd 4: Egluro cydberchnogaeth i'r cyhoedd

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 4 drafod y gweithredu sydd ei angen ar **egluro cydberchnogaeth i'r cyhoedd**.

Gweithredu sydd ei angen

Codi ymwybyddiaeth

- Mae angen codi ymwybyddiaeth ar draws Cymru i hwyluso ymgysylltu â chymunedau. Os yw ymwybyddiaeth cymuned yn isel ond gall weld manteision prosiectau ynni adnewyddadwy, mae'n gwneud gwaith y datblygwyr yn llawer haws a chynt wrth ymgysylltu â'r gymuned.
- Egluro'r gwahanol fathau o berchnogaeth leol a chyfranogiad.
- Cynnwys stori ar yr Archers.
- Mae Facebook yn fwy effeithiol na gwefan lonydd i ennyn diddordeb pobl.
- Mae angen adnoddau sy'n egluro cysyniadau mwy manwl, er enghraifft newid y system ynni o un ganolog i un ddosbarthu.

Ymgysylltu

- Mae ymgysylltu â'r gymuned yn anoddach yng Nghymru oherwydd bod gan bobl farn bendant yn barod am ynni adnewyddadwy. Mae'n bwysig mynd â phethau'n ôl i'r egwyddorion sylfaenol a pha fudd sydd i'r gymuned.
- Sut y gallwn fod mor falch o'n diwydiant ynni adnewyddadwy ag ydym o'n diwydiannau glo a dur?
- Dysgu o gamgymeriadau TAN8 a defnyddio'r ddadl o allforio adnodd i Loegr a gwneud elw.
- Mae ymddiriedaeth yn bwysig ac yn mynd o nerth i nerth gyda phrosiect llwyddiannus. Nid yw newyddion yn teithio rhwng siroedd felly mae'n bwysig byddino pencampwyr ynni cymunedol.
- Sut y mae chwalu'r mythau am beth fydd prosiect yn neu ddim yn ei wneud?
- Dylai ymgysylltu ystyried cwestiynau'r unigolyn, 'sut y bydd hyn yn effeithio arnaf i?' A fydd fy miliau ynni'n rhatach? Sut y gallaf gynhesu fy nghartref?
- Angen adnabod pa gymuned y mae eich prosiect yn gysylltiedig â hi, a'ch bod yn eu deall.
- Mae'n bwysig 'byddino' pawb, nid canolbwyntio dim ond ar y rhai sydd eisoes â diddordeb ac yn cyfranogi.
- Cael y gymuned i adnabod blaenoriaeth iddi ei hun, cyn adnabod Cydberchnogaeth fel ffordd bosib o ddenu cyllid ar gyfer y flaenoriaeth honno. Dylid teilwrio'r eglurhad i adlewyrchu'r prif faterion a godir gan gymunedau unigol, er enghraifft egluro faint y bydd unigolion yn ei arbed ar filiau trydan.
- Sicrhau bod cydberchnogaeth o ynni adnewyddadwy wedi'i gynnwys yn y cynllun datblygu lleol.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i astudiaethau achos.

- Dylid defnyddio llwyfannau i'w gwneud yn haws i ddeall cydberchnogaeth, perchnogaeth gymunedol a pherchnogaeth leol.

Teimlai'r grŵp mai Llywodraeth Cymru, ar y lefel uchaf, sy'n gyfrifol am weithredu o'r fath ond mai grwpiau lleol sy'n gallu effeithio fwyaf ar ymgysylltu lleol.

Bwrdd 5: Byd di-gymhorthdal

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 5 drafod y gweithredu sydd ei angen ar gyfer **byd di-gymhorthdal**.

Gweithredu sydd ei angen:

Ariannol

- Rhaid i systemau fod yn hunan-gynhaliol, nid yn ddibynnol ar gyllid.
- Mae'n debyg na fydd prosiectau'n hyfyw heb gymhorthdal. Dylai Llywodraeth Cymru drafod hyn un-i-un gyda datblygwyr i ddeall y ffigurau.
- Grantiau yn lle cymhorthdal, yn enwedig i brosiectau gyda budd i'r gymuned.
- Dylid ystyried arbedion maint, gallai buddsoddiadau neu brosiectau mwy fod yn fwy ariannol hyfyw. Er enghraifft, mae prosiect pwmpio gwres yn gofyn buddsoddiad cychwynnol mawr, ond yn rhoi budd ariannol mwy hirdymor.
- Byddai "arian carbon" yn gwneud ynni adnewyddadwy'n fwy hyfyw. Economegydd Llywodraeth Cymru i weithio ar yr economeg interim.

Rheoli disgwyliadau

- Bydd rheoli disgwyliadau'n bur anodd o hyn ymlaen.
- A ddylid datblygu prosiectau newydd os na fydd budd digonol i Gymru?
- Angen cydnabod y realiti. Meddwl ar linellau tebyg i gyllideb garbon gyfreithiol.

Ffyrdd arloesol o weithio

- Defnyddio ynni adnewyddadwy i gyflenwi defnyddwyr lleol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Storio ynni i'w ddefnyddio ar adegau o alw brig.
- Mae Drax yn defnyddio biomas o Ogledd America mewn generadur 25% effeithlon.
- Dŵr yw un o'r adnoddau gorau sydd gan Gymru felly dylai Llywodraeth Cymru hwyluso cydberchnogaeth o bŵer tonnau.
- Mae angen mwy o ymchwil a datblygu a dylid defnyddio'r prifysgolion i helpu i ddatrys problemau.
- Dylid ategu'r hyn y mae datblygwyr preifat yn ei wneud i addasu i fyd di-gymhorthdal, er enghraifft, cynhyrchu newydd i gyd-fynd â phympiau gwres.

Gwella cadernid

- Bydd angen achosion busnes mwy trylwyr.

Sesiwn brynhawn 2 Abertawe:

Trafodaeth grŵp: Pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau allweddol?

Yn ail sesiwn brynhawn y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn Abertawe nodi pa weithredu sydd ei angen i oresgyn yr heriau a godwyd yn y trafodaethau'n gynharach yn y dydd.

Bwrdd 1: Cyllid ar gyfer cydberchnogaeth

Gofynnwyd i grŵp Bwrdd 1 drafod pa weithredu sydd ei angen i ddatrys y mater o **gyllid ar gyfer cydberchnogaeth**. Mae'r gweithredu wedi'i grwpio'n themâu.

Gweithredu sydd ei angen

Ffynonellau cyllid

- Gall prosiectau ynni gynhyrchu elw o incwm a fuddsoddiwyd, gyda chyfleoedd yn enwedig i awdurdodau lleol sydd â mynediad at gyllid rhad.
- Dylid buddsoddi cronfeydd pensiwn llywodraeth leol Cymru mewn ynni adnewyddadwy. Ar hyn o bryd mae £1bn wedi'i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil (a mwy'n cael ei fuddsoddi ar adeg pan ydym yn eu dileu'n raddol). Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu cronfeydd pensiwn ac felly'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy gyfuno adnoddau mae sgôp i gyd-fuddsoddi mewn prosiectau hinsawdd-gyfeillgar fel ynni adnewyddadwy. Nid peth 'braf i'w gael' yn unig yw ynni adnewyddadwy, mae cyllid i brosiect yn darparu gosodiad ond hefyd ynni, arbedion carbon a newid ymddygiad. Fodd bynnag, efallai na fyddai cronfeydd pensiwn yn ddelfrydol oherwydd y risg.
- Mae angen ffynhonnell incwm sicr i gefnogi rhagolygon hirdymor a hyfywedd datblygiad, tebyg i gyfnod 20 mlynedd y Tariff Cyflenwi Trydan. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn lleihau sicrwydd ac yn gwneud y sgwrs gyda mudiadau cymunedol yn anoddach.
- Gallai Banc Cyhoeddus i Gymru, wedi'i ariannu gan unigolion, ddarparu cyllid.
- A allai Banc Datblygu i Gymru gynnig cyllid rhatach i gynlluniau cymunedol neu ar gyfer elfen perchnogaeth leol cynllun cydberchnogaeth? A oes problem gyda chymorth y wladwriaeth?
- Gallai cyllid torfol achosi problemau, er enghraifft sut y byddai'n cael ei reoli? Pwy fyddai'r pwynt cyswllt clir ar gyfer y datblygwr?
- Pan oedd tariffau FiT yn uwch, roedd prosiectau solar gwifrau preifat yn aml yn rhoi trydan rhatach neu am ddim i'r adeiladau y cawsant eu gosod arnynt (gan ddatblygwr trydydd parti). Gallech dalu mwy drwy Good Energy felly pam ddim talu mwy am wifren breifat os yw'n cyd-fynd ag amcanion moesegol.
- A allai prosiect adnewyddadwy perchnogaeth leol gael gafael ar gyllid llog isel (2%) drwy fenthycu darbodus, drwy awdurdod lleol neu gyhoeddus arall? Mae trafferthion yn codi oherwydd blaenoriaethau croes yn y sector cyhoeddus a dim ond hyn a hyn o arian i bob dim.

- Dylid troi'r fframwaith rheoli lefi ar ei ben, e.e. ynni cymunedol i fod y rhataf, yna ynni adnewyddadwy preifat, a chodi'r lefi mwyaf ar dechnolegau sy'n llygru fel mai'r rheini a fyddai'r ynni drytaf. A allai hyn ddigwydd yng Nghymru?

Hyfywedd prosiectau

- Mae maint prosiect yn effeithio ar ei hyfywedd. Bydd prosiectau mwy'n denu cyllid ariannu dyled gan fanciau etc.
- Bydd cynllun ond yn hyfyw os cynigir cyllid digon rhad.
- Beth yw'r elw lleiaf y mae datblygwyr yn ei ddisgwyl? Ydyn nhw'n fodlon dweud wrthym?
- Rhywsut neu'i gilydd, mae angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod beth yw'r cyfraddau elw sy'n ddisgwyliedig gan ddatblygwyr i ddeall sut y mae cyllid prosiect yn gweithio yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Cymorth sydd ei angen

- Mae angen cymorth i drefnu elfen gymunedol cyllid, i'w weinyddu ac i wneud penderfyniadau. Mae angen i ddatblygwr ddelio gydag endid. Rhaid cael rhywun i gyfryngu, rhywun sy'n cyllido ac yn hwyluso sefydlu mudiad cymunedol.
- Mae angen cymorth clir ar y datblygwr ac ar fudiadau cymunedol.

Polisi

- Mae angen i Gymru fabwysiadu Polisi Economaidd Gwyrdd.
- A allai sefydliadau mwy Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ysgwyddo'r risg eu hunain ar y dechrau drwy roi cytundeb yn ei le a gwerthu cynllun ymlaen i gymuned unwaith y bydd wedi cael caniatâd.
- Gallai cymorth Llywodraeth Cymru gefnogi cyllid cymdeithasol mwy arloesol, e.e. cyfranddaliadau, bondiau ynni cymunedol a chyfrifon ISA. Ac efallai benthyca cymdeithasol arall.

Bwrdd 2: Gwneud i brosiectau weithio heb gymhorthdal

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 2 drafod pa weithredu sydd ei angen i **wneud i brosiectau weithio heb gymhorthdal**. Grwpwyd y gweithredu'n themâu.

Gweithredu sydd ei angen

Sgiliau

- Sicrhau bod cymunedau'n gallu ymweld a dysgu o enghreifftiau go iawn.
- Denu partneriaid i ateb unrhyw ddiffyg sgiliau.
- Darparu addysg am ddim a rhannu gwybodaeth.

Arloesi

- Annog arloesi a chaniatáu i gymunedau wneud ymchwil gyda chyllid i leihau'r risg.
- Gwario mwy ar arbed ynni'n ogystal ag ar ynni adnewyddadwy.

Cyfnod talu'n ôl

- Wrth fesur buddion ynni, dylid edrych ar y buddion ehangach a chaniatáu cyfnodau hirach i dalu'n ôl.
- Mae angen dadansoddiad cost a budd o brosiect drwy ei oes, gan gynnwys defnydd lleol o'r ynni a gynhyrchwyd, cymorth anariannol i helpu prosiectau i dyfu, lefi seilwaith cymunedol ar gynllunio (yn lle adran 106), morgeisi gwyrdd.
- Mae edrych ar gostau cylch bywyd yr holl ddatblygiadau seilwaith yn debyg i dalu mwy am dŷ gwell ar y dechrau.

Cyllid

- Dylid cynhyrchu trydan ar safleoedd lle mae galw i ddileu galw brig a chael cyflenwad lleol. Creu cwmnïau fel bo'r pris manwerthu'n mynd i'r cynhyrchydd ac nid i'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu neu gwmni arall.
- Mae gwahaniaeth rhwng buddsoddwyr preifat yn disgwyl llog o 8% a'r cyhoedd yn fodlon derbyn llog o 4% neu 5% wrth ddod o hyd i gyllid ar gyfer cwmnïau menter gymdeithasol.
- Mae Cytundebau Prynu Pŵer hirdymor yn cynnig sicrwydd incwm dros oes y prosiect.
- Ni ddylai prosiectau gwifrau preifat o reidrwydd dalu llai am eu hynni na phrynu ar gyfer cyflenwr trydydd parti. Dylai ynni adnewyddadwy gael ei weld fel ynni premiwm.
- A allai'r sector cyhoeddus roi blaenoriaeth i brynu ynni gan brosiectau cymunedol a pherchnogaeth leol am bris cytunedig?
- Gallai cyllid rhatach wneud cynlluniau'n fwy masnachol hyfyw ynghyd â rhyddhad ardrethi busnes.
- Ni ddylid creu rhwystrau i fuddsoddi allanol.
- Gall prosiect mwy fod yn ddi-gymhorthdal, nid yn fwy o ran capasiti gosodedig yn unig ond hefyd gyda thyrbinau mwy (4MW). Mae tyrbinau mwy'n creu arbedion maint gwell mewn byd di-gymhorthdal.

Lleihau biwrocratiaeth

- Dylid lleihau'r costau a'r amser sy'n gysylltiedig â chynllunio a biwrocratiaeth fel nad yw'n mygu mentro lleol, er enghraifft drwy rannu arolygon blaenorol, gwneud arolygon ac Aseidiadau Effaith Amgylcheddol yn gyhoeddus a thrwy gysylltu'r holl astudiaethau i'r Atlas Ynni i sicrhau eu bod yn hygyrch.

Polisi

- Dynodi'r holl dir yng Nghymru fel tir gyda photensial adnewyddadwy er budd lleol, fel y byddai'n rhaid i ddatblygiad adnewyddadwy ddangos sut y byddai o fudd i bobl leol.
- Defnyddio diffiniadau o feysydd eraill, e.e. tai.

Modelau

- Gallai perchnogaeth leol olygu bod yn berchen ar ganran o'r ynni a gynhrychir.
- Mae dod o hyd i'r model iawn yn bwysig i wneud i brosiect weithio, e.e. model Coedwig Alwen yn y Gogledd.

Mynediad at dir

- Mynediad rhad at dir ac adeiladau cyhoeddus ar gyfer ynni cymunedol.

Bwrdd 3: Sut y mae cynllunio'n galluogi?

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 3 drafod pa weithredu sydd ei angen yng nghyswllt **sut y mae cynllunio'n galluogi?**

Gweithredu sydd ei angen

Sgiliau

- Cynnwys arbenigwyr ynni o'r holl ardaloedd awdurdod lleol i sicrhau'r broses fwyaf effeithlon, fel yng Nghernyw.
- Cynnwys timau o arbenigwyr ynni adnewyddadwy a chymunedol, efallai ar draws dau awdurdod lleol neu fwy.

Lleihau biwrocratiaeth

- Dileu biwrocratiaeth, gweithio gyda'n gilydd i gyrchu at y nod.
- Mae angen i'r system gynllunio fod yn glir a thryloyw.

Ystyriaethau cynllunio

- Dylai perchnogaeth leol gario pwysau penodol, nid rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu'n llac at gwt polisiâu cynllunio ehangach.
- Creu amodau sy'n gadarnhaol i ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol yn y system gynllunio. Lle nad yw prosiectau adnewyddadwy'n cael caniatâd cynllunio, mae angen ei herio. Er enghraifft, hawliau datblygu a ganiateir gyda system gynllunio'n seiliedig ar feini prawf, fel bod caniatâd yn rhywbeth caniatol ar yr amod y bodlonir y meini prawf, ac os na fodlonir, ymgeisio yn yr hen ffordd. Taflen sgorio'n dangos i ble y mae'r holl arian yn mynd, h.y. rhent i fan hyn, swyddi'n cael eu creu fan hyn, contractwyr fan hyn, cyllid yn

dod o fan hyn. Dylai unrhyw ddatblygiad yn sgorio dros hyn a hyn gael caniatâd cynllunio. Gallai'r system sgorio fod yn debyg i sgorio caffael.

- Angen i'r system gynllunio ystyried beth sydd angen iddynt ei asesu i wneud penderfyniad ac yna ei gysylltu i ganiatâd yn y broses gynllunio heb lethu cymuned yn ormodol gydag ymrwymadau cyfreithiol neu ariannol cyn rhoi caniatâd.
- Cymhwyso buddion anariannol i'r model busnes cyffredinol. Cysylltu'n gryf i ddangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyfleoedd polisi

- Creu systemau ysgogi fel bod pobl yn meddwl yn wahanol, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cyflwyno cyfle newydd i ddiffinio ardaloedd cynhyrchu.
- Cael pobl leol i gyfrannu at lunio ac ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol.
- Byddai cyllidebau carbon yn ddefnyddiol ar lefel leol. Byddai hyn yn rhoi budd ariannol a chosbau hefyd, felly byddai'n gost-niwtral.

Dull strategol

- Edrych ar ddulliau eraill ar waith mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop – beth sy'n gweithio?
- Mae llawer o'r problemau'n lleol, felly byddai dull strategol ar lefel awdurdod lleol yn caniatáu rheoli adnoddau fel uwchraddio'r grid fel bod gan gymunedau lais yn y dull.
- Gall cynllunio adnabod technolegau i wneud seilwaith newydd yn hyfyw, e.e. safleoedd lluosog ar gyfer cysylltiad grid newydd.
- Sut y diffinnir budd cymunedol / perchnogaeth leol? Mewn rhai achosion, mae darparu cronfa fudd cymunedol yn well oherwydd gall y gymuned leol deimlo budd elw ariannol effaith datblygiad ynni adnewyddadwy, fodd bynnag dull o'r brig i lawr yn sicr yw hyn. Fodd bynnag, sut y gall perchnogaeth leol a'r budd economaidd o hyn (yn benodol o ran cyfranddaliadau) sicrhau ei fod yn cynnwys y gymuned gyfan?

Bwrdd 4: Annog y gymuned i ymgysylltu

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 4 drafod y gweithredu sydd ei angen i sicrhau **bod y gymuned yn ymgysylltu**. Mae'r gweithredu wedi'i grwpio'n themâu.

Gweithredu sydd ei angen

Codi ymwybyddiaeth

- Mae angen cynllun traws-Gymru i godi ymwybyddiaeth o gydberchnogaeth os yw Llywodraeth Cymru eisiau annog cydberchnogaeth o ynni adnewyddadwy. Llywodraeth Cymru, neu is-sefydliad, a ddylai arwain ar yr ymgysylltu dros y flwyddyn i ddod.

- Cynnal sioe deithiol ar y map ynni, gellid hefyd trefnu sioe deithiol trydan a sioe deithiol gwres.
- Mae angen llwyfan fel bod pawb yn gallu gweld map ynni Cymru o brosiectau cymunedol, cydberchnogaeth a phrosiectau eraill ac fel y gall pobl gyllido a buddsoddi mewn prosiectau yng Nghymru.
- Gwella'r sylw a roddir yn y cyfryngau i brosiectau lleol.

Ariannol

- Gallai modelau ariannol llwyddiannus fel bondiau a chyfrifon ISA ynni apelio at gymunedau.
- Mae angen cyllid rhad gan sefydliad Banc Cymru o ryw fath.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu buddsoddiad cronfa ymddiriedolaeth ynni i bob plentyn, yn lle'r cynllun Plant!
- Dylai pobl leol fod yn gallu prynu eu hynni'n lleol. Mae angen canfod ffordd o alluogi hyn fel bod gan bobl leol gysylltiad uniongyrchol i'r ynni a gynhrychir yn lleol.

Gwerthu gweledigaeth

- Mae angen i ni werthu'r weledigaeth o beth fydd y targed perchnogaeth leol o 1GW yn ei olygu i economi Cymru. Faint sy'n cael ei gadw yn economi Cymru. Sut y bydd yn cael ei ddefnyddio?
- Lledaenu'r newyddion am enghreifftiau llwyddiannus, e.e. Pen y Cymoedd.
- Dysgu gan gymdeithasau tai eraill oherwydd mae ganddynt ddigonedd o brofiad o ddod â chymunedau at ei gilydd.
- Cael pobl ddibynadwy i annog pobl i fuddsoddi a phrynu cyfranddaliadau.
- Ystyried sut i ddefnyddio'r ynni, a'i ddefnyddio ar gyfer budd lleol sy'n gyffrous ac arloesol ac a fyddai'n cael sylw yn y cyfryngau. Defnyddio prosiectau adnewyddadwy bach gyda defnyddiau lleol go hynod, e.e. oergell solar gymunedol, gwres dŵr o hen waith glo, gwifro ceir trydan am ddim i greu atyniad twristiaeth ar ddefnyddiau adnewyddadwy bach arloesol.
- Gallai ceir trydan fod yn gymhelliad i bobl wneud rhywbeth o ddifrif ynghylch cynhyrchu ynni.

Buddion

- Mae angen proses ddemocrataidd i benderfynu beth sy'n digwydd gyda'r buddion cymunedol. Sut i wneud i ymgysylltu a budd weithio yn y ffordd fwyaf teg a chyfartal?
- Mae pobl eisiau pŵer rhatach, felly canfod ffordd i greu pŵer a rhoi gwybod iddynt pan fydd gormodedd fel y byddai'n rhatach neu am ddim. Defnyddio ffonau symudol neu ddangosydd cegin i hysbysu pobl.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer costau cychwynnol cerbydau trydan, fel bysiau trydan a phwyntiau gwefru mewn gorsafoedd bws mawr a pharcio a theithio.

Modelau

- Dylid sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy rhannog mewn prosiect. Perchnogaeth leol 100% sydd orau, ond mae prosiectau bach yn fwy heriol.
- Dylai'r diffiniad o gymuned ymgorffori busnesau etc, nid dim ond y sector gwirfoddol oherwydd gallai fod budd i weithgynhyrchwyr etc hefyd.
- Dylai fod gan y gymuned gyfle i fynd yn rhannog ar wahanol adegau yn y cylch datblygu.
- Perchnogaeth leol o fysiau / ceir / tacsis trydan.

Grymuso cymunedau

- Gellid talu i gymunedau lenwi'r bylchau mewn gwaith cyrff cyhoeddus.
- Dylid caniatáu i gymunedau ddefnyddio asedau cyhoeddus.
- Dylid annog a chaniatáu i gymunedau wneud eu cynlluniau eu hunain, ar yr amod y medrant gael caniatâd.

Atebion arloesol

- Cysylltu'r holl wahanol fathau o ddatblygiadau angenrheidiol i sicrhau atebion amlochrog.

Cymorth

- Byddai unrhyw beth i sicrhau parhad y diwydiant adnewyddadwy yng Nghymru'n cael ei groesawu gan ddatblygwyr ond rhaid cael digon o gymorth os am lwyddo. Os yw'r targedau / nodau ar gyfer mudiadau cymunedol, rhaid i'r capasiti fod yn ei le er mwyn gallu darparu hyn heb greu llyffethair ychwanegol i'r datblygiad a'r partneriaid masnachol.

Bwrdd 5: Diffiniadau

Gofynnwyd i gyfranogwyr Bwrdd 5 drafod y gweithredu sydd ei angen ar **ddiffiniadau**.

Gweithredu sydd ei angen

- A allai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i lunio'r diffiniadau? Gwell fyddai ceisio gweithio gyda'r fframweithiau sydd gennym eisoes / yr ydym yn ceisio eu sefydlu.
- A fyddai'n bosib cael meini prawf ardystio a'u diwygio fel bo angen? Hefyd, a fyddai'n bosib cael system rhyddhad ardrethi busnes ar sail eich meini prawf ardystio, fel yn yr Alban?
- Mae angen i'r diffiniad o gymuned fod yn ehangach na dim ond preswylwyr, dylai ymgorffori awdurdodau lleol, byrddau iechyd, busnes a'r trydydd sector.
- Dylai prosiect sicrhau lefel benodol o fudd i'r gymuned cyn gadael i fusnesau lleol ac ati fuddsoddi wedyn.
- Nid ydym eisiau dweud y byddai'n well peidio â chael tyrbîn gwynt na thyrbîn gwynt gyda chwmni di-Gymreig yn berchen arno.

- Mae angen mapio ynni fel bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i gwrdd â'u targedau datblygu ynni adnewyddadwy a mesurau arbed ynni. Dylid gosod targedau ar gyfer awdurdodau lleol.
- Dylid rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer prosiectau llai. Gall busnesau bach a chanolig Cymru, awdurdodau lleol a phrosiectau cymunedol ddatblygu'r rhain, ond yn aml iawn ni fedrant gystadlu ar dendrau mawr gan Gyfoeth Naturiol Cymru etc.
- Ydy 1GW yn ddigon uchelgeisiol?
- Dylid cynnwys gwres adnewyddadwy yn y targed 1GW.
- Pa fudd y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl ei weld? Ai datblygu cwmni ynni i Gymru (perchnogaeth Gymreig) neu er mwyn noddi cymysgedd amrywiol o ddatblygwyr ynni bach, cymunedol a mwy?
- Mae angen plismona cwmnïau lleol ffug, ond sut? Bydd angen asesiad ar y dechrau a gwiriadau parhaus.
- Os cwmnïau / sefydliadau o Gymru'n unig fydd yn gallu bod yn berchen ar ynni adnewyddadwy'r wlad, a fydd hyn yn lleihau GDP, mewnfuddsoddi a mewnfasnachu?
- Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol etc rôl i'w chwarae mewn annog a monitro budd lleol a chefnogi'r broses perchnogaeth leol.

Atodiad 1

Sefydliadau oedd wedi eu cynrychioli yn nigwyddiad Llandudno

Ynni Anafon Energy Cyf

Ynni Padarn Peris

Cyngor ar Bopeth

ecodyfi

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni/Energy Saving Trust

Ynni Ogwen

Wild Resources Ltd

Innogy renewables UK

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Cyngor Sir y Fflint

TOP Woodfuel & Sustainable Forestry

Scottish Power Energy Networks

Partneriaethau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

YnNi Lly^n

Sefydliadau oedd wedi eu cynrychioli yn nigwyddiad Abertawe

Coastal Housing Group
Melin
Newport City Homes
ecodyfi
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
ABMU HB
Eco2
Coed Cymru
ABMU HB
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Prifysgol Caerdydd
Newport City Homes
Llywodraeth Cymru – Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Burgess Salmon LLP
Canolfan Cydweithredol Cymru
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
NFU Cymru
Partneriaethau Lleol
Community Energy Wales - Ynni Cymunedol Cymru
Y Sefydliad Materion Cymreig
Prifysgol Bangor
Innova [G]
Llywodraeth Cymru – Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Ynni Cymunedol Caerdydd
Grŵp cymunedol Cilgwyn
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Vattenfall

Atodiad 2

Agenda Llandudno

10:00	Cofrestru	
10:30	Cyflwyniad	Jennifer Pride, Llywodraeth Cymru
10:40	Cefndir y cais am dystiolaeth	Vicky Davies, Llywodraeth Cymru
11:00	Cyflwyniadau: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol	Gordon Cowtan, Fintry Development Trust Berry Jordan, Vattenfall
11:30	Sesiynau grŵp: Trafod a blaenoriaethu'r heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol	
12:30	Cinio	
13:30	Sesiynau grŵp: Adnabod gweithredu i gwrdd â'r heriau	
14:30	Crynhoi a'r camau nesaf	Jennifer Pride
15:00	Gorffen	

Agenda Abertawe

26 Chwefror 2018

10:00	Cofrestru	
10:30	Cyflwyniad	Jennifer Pride, Llywodraeth Cymru
10:40	Cefndir y cais am dystiolaeth	Vicky Davies, Llywodraeth Cymru
10:50	Cyflwyniadau: Perchnogaeth leol er mwyn ffyniant lleol	Chris Blake, Ynni Cymunedol Cymru Martyn Popham, Cenin Renewables Berry Jordan, Vattenfall
11:45	Sesiynau grŵp: Trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth leol	
12:30	Cinio	
13:30	Sesiynau grŵp: Adnabod gweithredu i gwrdd â'r heriau	
14:30	Crynhoi a'r camau nesaf	Jennifer Pride
15:00	Gorffen	